

Cyngor Sir Penfro – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024

Tystiolaeth Ategol	Tudalen
Nodweddion Gwarchoddedig yn Sir Benfro	2
Llywodraethu a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol	4
Cyflogaeth	7
Addysg	14
Mynediad at Fywyd a Gwasanaethau Cymunedol	25
Tai	30
Cydlyniant Cymunedol	37

NODWEDDION GWARCHODEDIG YN SIR BENFRO

Proffiliau Oedran a Rhywedd

Amcangyfrif canol blwyddyn 2019 o gyfanswm y boblogaeth yn Sir Benfro oedd 125,818. Mae cyfrannau'r gwrywod a'r benywod yn parhau'n sefydlog i raddau helaeth, ac mae nifer y menywod yn rhagori ychydig ar nifer y gwrywod; gellir priodoli hyn i ddisgwyliad oes hwy benywod. O'r rhain:

Oedran	Poblogaeth Sir Benfro (canol tymor 2019)	% o 125,818
0 – 4 oed	5,904	5%
5 – 15 oed	15,538	12%
16 – 64 oed	71,638	57%
65 – 74 oed	17,749	14%
75 – 84 oed	10,688	8%
85 oed ac yn hŷn	4,301	4%
Cyfanswm	125,818	100%

O gymharu â'r blynyddoedd yn union cyn 2018, mae nifer y plant 0-4 oed yn gostwng ychydig, mae nifer y plant 5 – 15 mlwydd oed yn cynyddu ychydig, ac mae nifer y bobl 16 – 64 oed yn parhau'n weddol sefydlog. Mae nifer y bobl 65 – 74 mlwydd oed, pobl 75 – 84 mlwydd oed, a phobl sy'n 85 oed ac yn hŷn yn cynyddu.

Mae genedigaethau byw a gofnodwyd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer Sir Benfro wedi gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf.

Blwyddyn	2015	2016	2017
Genedigaethau	1,177	1,116	1,113

(cyf: gwefan Stats Cymru)

Anabledd a Gofalwyr

O ganlyniad i natur hŷn poblogaeth Sir Benfro, mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod cyfartaledd y bobl y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn rhai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is . . . Yn gyffredinol, y prif drefi yw'r rheiny sydd â chanrannau uwch na'r cyfartaledd o bobl y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig . . . Doc Penfro sydd â'r ganran uchaf o bobl y mae eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu llawer – ac mae Doc Penfro: Canolog a Doc Penfro; Llanion ill dau yn cofnodi canrannau o dros 16% yn y categori hwn (o gymharu ag 11.1% ar gyfer Sir Benfro, ac 11.9% ar gyfer Cymru). Mae gan Benfro: Santes Fair Gogledd a Dwyrain Williamston ffigur 15% ar gyfer y dangosydd hwn hefyd.

Mae canran uwch o boblogaeth Sir Benfro yn darparu 1 - 19 awr o ofal (7.4%) na Chymru (6.9%). Mae canrannau Sir Benfro yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru ar gyfer y rheiny sy'n darparu 20 - 24 awr o ofal di-dâl yr wythnos, ac ar gyfer y rheiny sy'n darparu 50 awr a mwy o ofal di-dâl yr wythnos. O ran y rheiny sy'n darparu dros 50 awr o ofal yr wythnos, mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is penodol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru a Sir Benfro fel ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o'r prif drefi. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd â 4.5% neu fwy o'r boblogaeth yn darparu 50 awr a mwy o ofal di-dâl yr wythnos yn cynnwys: Hwlfordd Pont Myrddin; Aberdaugleddau Hakin ac Aberdaugleddau Hubberton; Penfro Santes Fair De a Phenfro Sant Mihangel.

(cyf: Strategaeth a Ffeirir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Ailbennu Rhywedd

Nid oes ystadegau ar gael ar nifer y bobl draws yn Sir Benfro. Mae diffyg data ystadegol o ansawdd da ynghylch pobl draws yn y DU yn gyffredinol ar hyn o bryd.

(cyf: Strategaeth a Ffeirir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig

Yn 2009, amcangyfrifwyd o gyfanswm poblogaeth Sir Benfro o 117,400:

Grŵp ethnig	Nifer	% o 117,400
Gwyn	113,400	97%
Cymysg	900	1%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	1,400	1%
Du neu Ddu Prydeinig	1,000	1%
Grŵp ethnig arall	700	-
Cyfanswm	117,400	100%

(cyf: gwefan Stats Cymru)

O gymharu â Chymru gyfan, mae poblogaeth gymharol fawr o Sipsiwn a Theithwyr preswyl yn Sir Benfro. Mae Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Penfro yn 2015 yn darparu:

O'r arolwg o 91 o aelwydydd, a roddodd eu hethnigrwydd, nododd 43 (47.3%) eu bod yn Romani neu'n amrywiad o'r ethnigrwydd hwnnw. Roedd y 32 aelwyd (35.2%) a nododd eu bod yn Sipsiwn, yn Sipsiwn Cymreig, yn Deithwyr neu'n Deithwyr Cymreig, yn tueddu i rannu cysylltiadau teuluol cryf a/neu safleoedd ag aelwydydd Romani. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau hyn, sydd wedi eu cysylltu â'i gilydd trwy deulu a/neu gysylltiadau lleoliad, yn cynnwys 82.5% o'r holl ymatebwyr. Ni nododd yr un o'r aelwydydd a roddodd ymatebion yn yr arolwg fod ganddynt ethnigrwydd Teithwyr Gwyddelig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol fod Teithiwr Gwyddelig wedi caffael caniatâd cynllunio ar gyfer un safle preifat yn cynnwys chwe llain yn 2013. Ni nododd yr un o'r aelwydydd a ymatebodd yn yr arolwg fod ganddynt ethnigrwydd Teithwyr Newydd chwaith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol o un llain Teithwyr Newydd yn Sir Benfro.

(cyf: Strategaeth a Ffeirir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Crefydd a Chred

Yn ôl data Cyfrifiad 2011, mae canran uwch o bobl yn Sir Benfro (63%) wedi nodi eu bod yn Gristion nag yng Nghymru (57.6%). Yr Ardal Cynnyrch Ehangach Haen sydd â'r ganran uchaf o Hindwiaid yw Hwlfordd Prendergast (2.9%), sef ardal sydd hefyd â'r ganran uchaf o Fwdyddion (0.9%) a Moslemiaid (1.7%) (cyf: Strategaeth a Ffeirir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Cyfeiriadedd Rhywiol

Nid oes ystadegau ar hunaniaeth rywiol ar gael ar lefel Sir Benfro o ganlyniad i bryderon ynghylch meintiau bach y samplau, a thrylwyredd y data . . . Mae data sydd ar gael . . . ar gyfer rhanbarth De Orllewin Cymru yn cynnwys Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Ar gyfer y rhanbarth, nododd 94.9% o bobl eu bod yn heterorywiol/strêt, 1.24% yn hoyw/lesbiaidd neu'n ddeurywiol, a 0.51% fel rhywbeth arall. Nid atebodd 1.21%. Mae'r ffigurau yn debyg iawn i'r rheiny ar gyfer Cymru gyfan.

(cyf: Strategaeth a Ffeirir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

LLYWODRAETHU A'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Byddwn yn gwella trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu a monitro ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Byddwn yn dechrau â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o fis Mawrth 2021 ymlaen.

Y DARLUN CENEDLAETHOL

Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae Deddf Cymru 2017 wedi rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru ddechrau rhan arall o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, o fis Mawrth 2021 ymlaen. Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, a nifer o gyrrff cyhoeddus (enwyd gan Weinidogion Cymru):

“Wrth wneud penderfyniadau strategol, rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.”

'Mae nodweddion anfantais economaidd-gymdeithasol yn gymhleth, ac yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd; er enghraifft, mae canlyniadau iechyd yn mynd yn waelach yn raddol wrth i anfantais economaidd-gymdeithasol ddwysáu. O ganlyniad i ddiffyg cyfoeth cronodig neu gyfoeth cronodig isel, cyfyngedig yw'r mynediad a gaiff aelwydydd, os o gwbl, at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, fel cludiant, addysg a gwasanaethau gofal iechyd; diffyg symudedd gymdeithasol o ran addysg uwch a rhagolygon gyrfa; mae unigolion yn wynebu cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn os oes ganddynt nodweddion gwarchoddedig (gweler isod). Mae'n bwysig cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol nid yn unig yn cael ei phrofi yn y cymunedau hynny yr ystyrir yn nodweddiadol eu bod yn ddifreintiedig. Er enghraifft, mae dadansoddiad o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos, er bod 20% o bobl sy'n cael eu hamddifadu o incwm yn byw yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, mae hyn yn golygu nad yw tua 80% o'r bobl sy'n cael eu hamddifadu o incwm yn byw yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, mae byw mewn ardal ddifreintiedig yn gallu gwaethygu deilliannau negyddol i unigolion ac aelwydydd, wrth i'r ardaloedd hyn wynebu heriau sylweddol, ac mae hyn yn arbennig o wir am amddifadedd sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn.' (cyf Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru – Cymru Fwy Cyfartal, Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol)

Tlodi

Mae tlodi wedi cynyddu: mae chwarter o oedolion a thraean o blant bellach yn byw mewn tlodi. Mae tlodi ac amddifadedd ill dau yn uwch yng Nghymru na mewn gwledydd eraill ym Mhrydain, ond mae amddifadedd perthnasol difrifol yng Nghymru wedi gostwng. Mae pobl anabl yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a phrofi amddifadedd materion difrifol na phobl nad ydynt yn anabl.

Mae diwygiadau ledled y DU i nawdd cymdeithasol a threthi er 2010 yn cael effaith negyddol anghymesur ar y tlotaf mewn cymdeithas, gan effeithio'n benodol ar fenywod, pobl anabl, lleiafrifoedd ethnig ac unig rieni yng Nghymru.

(cyf: A yw Cymru'n Decach?)

Diffyg cynrychiolaeth o fenywod ymhlith ymgeiswyr etholiadau lleol yng Nghymru

“Mae diffyg cynrychiolaeth o fenywod o hyd ymhlith ymgeiswyr etholiadau lleol yng Nghymru . .

(cyf: A yw Cymru'n Decach?)

Diffyg cynrychiolaeth o unigolion sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ymhlith cynghorwyr lleol

Ym mis Gorffennaf 2020, amlygodd adroddiad o Brifysgol Manceinion gan yr Athro Maria Sobolewska a'r Dr Neema Begum raddfa'r diffyg cynrychiolaeth o unigolion sy'n bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig fel aelodau o gynghorau'r DU. Ledled y DU gyfan, fe wnaethant gofnodi bod 7% o holl gynghorwyr y DU o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sy'n hanner canran y bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cyfrif am boblogaeth gyffredinol y wlad (14%). Yn Sir Benfro, fe wnaethant gofnodi bod 0% o aelodau'r Cyngor o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, o'i gyferbynnu ag 1.9% o'r boblogaeth leol.

BETH SY'N DIGWYDD YN LLEOL?

▪ Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 yn dangos bod 15% o gyfanswm poblogaeth Sir Benfro yn byw mewn amddifadedd incwm. Yn hyn o beth, mae Sir Benfro yn gydradd yn yr 11eg safle (ynghyd ag Ynys Môn, Conwy, Wrecsam a Sir Gaerfyrddin) ymhlith y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Nododd y Mynegai hefyd fod 10% o boblogaeth oedran gweithio Sir Benfro yn cael budd-daliadau yn gysylltiedig â chyflogaeth. Yn hyn o beth, mae Sir Benfro yn gydradd yn y 12fed safle (ynghyd ag Ynys Môn a Chonwy) ymhlith ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru.

Awdurdod Lleol	% y boblogaeth mewn amddifadedd incwm (y rheiny sydd: yn derbyn budd-daliadau yn gysylltiedig ag incwm; yn derbyn credydau treth ac incwm 60% islaw canolrif Cymru neu'n Geisiwr Lloches a Gefnogir)		% y boblogaeth oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau yn gysylltiedig â chyflogaeth
1.Blaenau Gwent	21	1.Blaenau Gwent	15
2.Merthyr Tudful	20	2.Merthyr Tudful	14
3.Castell-nedd Port Talbot	19	2.Castell-nedd Port Talbot	14
3.Rhondda Cynon Taf	19	4.Rhondda Cynon Taf	13
5.Caerffili	18	5.Caerffili	12
5.Casnewydd	18	5. Torfaen	12
7.Sir Ddinbych	17	7.Casnewydd	11
7.Abertawe	17	7.Sir Ddinbych	11

7.Torfaen	17	7.Abertawe	11
9.Pen-y-bont ar Ogwr	16	7.Pen-y-bont ar Ogwr	11
9.Caerdydd	16	7.Sir Gaerfyrddin	11
11.Ynys Môn	15	12.Ynys Môn	10
11.Conwy	15	12.Conwy	10
11.Wrecsam	15	12.Sir Benfro	10
11.Sir Benfro	15	15.Caerdydd	9
11.Sir Gaerfyrddin	15	15.Wrecsam	9
17.Gwynedd	13	17.Gwynedd	8
17.Bro Morgannwg	13	17.Bro Morgannwg	8
19.Sir y Fflint	12	17.Sir y Fflint	8
19.Ceredigion	12	17.Ceredigion	8
20.Powys	11	21.Powys	7
21.Sir Fynwy	10	22.Sir Fynwy	7

Plant yn byw mewn teuluoedd incwm isel

Arhosodd canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel yn Sir Benfro yn 2015 islaw cyfartaledd Cymru, sef 20%. Fodd bynnag, yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Sir Benfro, mae gan nifer sylweddol o'r rheiny ym mhrif drefi'r sir ganrannau uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Hwlfordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro (cyf: Strategaeth a Ffefrir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Aelodau Etholedig

▪ O'i 60 aelod etholedig, mae gan Gyngor Sir Penfro saith aelod benywaidd, y mae dwy ohonynt yn Aelodau Cabinet. Mae gan Gyngor Sir Penfro un fenyw sy'n Gadeirydd Pwyllgor. Nid yw unrhyw un o aelodau Cyngor Sir Penfro o gefndir pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

CYFLOGAETH

Byddwn yn cymryd camau i fod yn gyflogwr mwy cynhwysol ac yn ceisio lleihau ein bwlbh o ran cyflogau rhwng y rhywiau

Y DARLUN CENEDLAETHOL

- Mae'r gyfradd cyflogaeth gyffredinol wedi codi, ond mae'n parhau i fod yn is yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban. Mae cyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru yn llai na hanner y gyfradd ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl
- Mae cyfraddau diweithdra wedi disgyn, a'r rheiny sy'n 16–24 oed sydd â'r gyfradd uchaf o ddiweithdra
- Mae cyflogaeth ansicr tua dwywaith mor uchel â'r cyfartaledd ar gyfer y rheiny sy'n 16–24 oed, ac mae wedi cynyddu ar gyfer y grŵp oedran hwn*
- Mae pobl anabl yn llai tebygol na phobl nad ydynt yn anabl o weithio mewn galwedigaethau rheoli neu broffesiynol, sy'n tueddu i fod â chyflog uwch
- Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o weithio mewn galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill, neu alwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, neu alwedigaethau elfennol, sy'n tueddu i fod â chyflog is, ond mae cyfrannau tebyg o fenywod a dynion mewn galwedigaethau â chyflog uchel
- Mae menywod yn parhau i ennill llai na dynion, ar gyfartaledd
- Mae bylchau o ran cyflog rhwng y rhywiau yn gulach yng Nghymru nag yn Lloegr, yn bennaf oherwydd bod enillion cyfartalog fesul awr cyflogeion amser llawn sy'n ddynion yn llawer is yng Nghymru
- Mae enillion cyfartalog yn amrywio yn ôl rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a chrefydd neu gred hefyd; yn benodol, mae enillion cyfartalog yn is ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl
- Mae saith o bob 10 mam wedi cael profiad negyddol neu brofiad gwahaniaethol o bosibl yn ystod bechiogrwydd neu absenoldeb mamolaeth, neu wrth ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth
- Mewn prentisiaethau, mae gwahanu cryf rhwng y rhywiau yn parhau. Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o leiafrifoedd ethnig mewn prentisiaethau, ac mae cynrychiolaeth o bobl anabl yn hynod isel**
- Mae bwlio ac aflonyddwch rhywiol yn parhau i fod yn eang yn y gweithle, er bod diffyg tystiolaeth arolwg yn golygu ei bod yn anodd meintoli hyn. Adroddodd astudiaeth o 2017 fod 26% o bobl sy'n byw yng Nghymru wedi profi ymddygiad rhywiol annymunol yn y gwaith.

**Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i ymchwiliad i dlodi yng Nghymru yn awgrymu bod diogelwch oriau gwaith yn hanfodol i weithwyr allu cymryd rhan yn effeithiol mewn cymdeithas, a threfnu*

gwaith gyda gweithgareddau eraill (Lloyd, 2017). Roedd dynion a menywod bron yr un mor debygol (10.4%) o fod mewn cyflogaeth ansicr. Roedd y rheiny sy'n 16–24 oed bron ddwywaith yn fwy tebygol â'r cyfartaledd o fod mewn cyflogaeth sicr yn 2016/17 (22.2%). Rhwng 2010/11 a 2016/17, cynyddodd cyflogaeth ansicr 1.0 pwynt canran ar y cyfan, ac o 1.8 pwynt canran i fenywod.

Cynigir lefelau uwch o ofal plant am ddim yng Nghymru na gweddill Prydain, i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair neu bedair blwydd oed (30 awr yr wythnos am 48 wythnos o'r flwyddyn). Fodd bynnag, mae dadansoddiad cychwynnol gan BBC Wales Live yn dangos bod nifer y rhieni sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant am ddim wedi bod yn is na'r disgwyl.
(cyf: A yw Cymru'n Decach?)

****Prentisiaethau yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae cyfrifoldeb am brentisiaethau wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd, De a Chanolbarth, a De Ddwyrain Cymru yn goruchwylio prentisiaethau. Caiff prentisiaethau eu cyflwyno a'u gweinyddu trwy rwydwaith gweithdrefn o ddarparwyr hyfforddiant y sicrhawyd eu hansawdd.

Mae'r Ardoll Brentisiaethau yn ardoll ar gyflogwyr y DU, gyda biliau cyflog blynyddol sy'n fwy na £3 miliwn, i ariannu prentisiaethau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno o leiaf 100,000 o brentisiaethau pob oed o ansawdd da. Ei blaenoriaethau yw:

- Cynyddu nifer y prentisiaid 16-19 oed: cynyddu nifer y bobl ifanc 16-19 mlwydd oed sy'n dilyn prentisiaethau, a chynyddu nifer y rhai sy'n gadael yr ysgol sy'n mynd ymlaen i ddilyn prentisiaethau o ansawdd da
- Mynd i'r afael â phrinder o ran sgiliau: datblygu prentisiaethau, yn enwedig mewn sectorau twf, a chategoriâu swydd newydd, yn unol â blaenoriaethau a bennir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol
- Datblygu sgiliau lefel uwch: canolbwyntio ar brentisiaethau ar lefel 4 ac yn uwch, lle mae enillion yn tueddu i fod yn uwch, ac ar y lefel y mae'r rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd llwyddiannus yn ei chyflwyno. Parhau i fonitro effeithiolrwydd a pherthnasedd Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2)
- Datblygu llwybrau sgiliau: integreiddio prentisiaethau yn y system addysg ehangach

Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhaglen pob oed: cynyddu nifer y bobl sy'n gallu cael mynediad at brentisiaethau o ansawdd da
- Cefnogi mesurau perfformiad: canolbwyntio ar sicrhau cyflogaeth ystyrlon a chynaliadwy
- Cefnogi dysgwyr: sicrhau ei bod yn hawdd manteisio ar ddarpariaeth a chyfleoedd er mwyn gwneud cais, a recriwtio ar eu cyfer
- Cyflwyno prentisiaethau yn Gymraeg ac yn ddwyieithog: sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gynnal a datblygu ei sgiliau Cymraeg
- Sefydlu system newydd ar gyfer adolygu a datblygu prentisiaethau: sicrhau bod prentisiaethau'n cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion cyflogwyr a'u bod yn ymatebol i newidiadau mewn diwydiant
(cyf: gwefan Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol)

BETH SY’N DIGWYDD YN LLEOL?

Ar 31 Mawrth 2019, roedd Cyngor Sir Penfro yn cyflogi 5,995 o unigolion mewn 8,440 o swyddi. (cyf: Cyngor Sir Penfro – Gwybodaeth am Gyflogaeth 2018 – 19).

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Mae Cyngor Sir Penfro wedi dod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ac mae angen i sefydliadau: sicrhau bod prosesau recriwtio yn gynhwysol a hygyrch; cyfleu a hyrwyddo swyddi gwag; cynnig cyfweiliadau i bobl anabl; rhagweld a darparu addasiadau rhesymol yn ôl yr angen, a chefnogi unrhyw gyflogeion presennol sy’n caffael anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor i aros mewn gwaith. Ym mis Medi 2019, y Cyngor hefyd oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ennill statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd DWP.

Rhaglen Cyflogaeth a Gefnogir

Partneriaeth rhwng Diwydiannau Norman a phrosiectau Gweithffyrdd + ac Experience 4 Industries a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd yw ein Rhaglen Cyflogaeth a Gefnogir. Ei nod yw darparu cyfleoedd gwaith cyflogedig a gefnogir i bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Mae Diwydiannau Norman wedi cymryd rhan yng nghynlluniau cyflogadwyedd DWP yn cefnogi pobl sy’n gweithio dros 16 awr yr wythnos am nifer o flynyddoedd. Mae’r Gronfa Gofal Integredig (ICF) wedi golygu y gellir cynnig cyfleoedd cyflogaeth a gefnogir i bobl sydd eisiau gweithio llai nag 16 awr. Mae hyn wedi cynnwys datblygu’r Caffi Parth Cymdeithasol yng Nghanolfan Hamdden Aberdaugleddau, sy’n cael ei redeg gan bobl ag anableddau dysgu. Ar hyn o bryd, mae’n cyflogi 6 o bobl ar sail cyflogaeth a gefnogir, tîm datblygu’r we, sy’n cyflogi 4 o bobl a 4 Hyrwyddwr Anableddau Dysgu ar hyn o bryd. Mae cyflogaeth a gefnogir yn darparu cymorth ychwanegol yn y gwaith, y tu hwnt i’r hyn y byddai’n rhesymol disgwyl i gyflogwr ei ddarparu, i sicrhau bod staff cyflogedig ag anabledd yn gallu gwneud y gwaith y maent yn cael eu talu i’w wneud. Gallai gynnwys goruchwyliaeth a hyfforddiant ychwanegol, hyfforddiant swydd, darparu gweithwyr cymorth i gynorthwyo cyfathrebu yn y gweithle neu gynorthwydd swydd i wneud rhannau o’r rôl na all yr unigolyn eu gwneud ar ei ben ei hun.

(cyf: Adroddiad Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2018 – 19)

Adroddodd datganiad i’r wasg, a gyhoeddwyd gan yr awdurdod ym mis Chwefror 2020, fod “Cyngor Sir Penfro yn sicr yn arwain y ffordd o ran cyflogi pobl ag anabledd, ac mae dros 60 o bobl yn gweithio yn Diwydiannau Norman a Gweithffyrdd+ yn unig.” (cyf: www.pembrokeshire.gov.uk)

Cyngor Sir Penfro – Gwybodaeth am gyflogaeth 2018 - 19

Er bod cynnydd yn sicr wedi cael ei wneud o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ag anableddau, mae cyfran y cyflogeion sy’n anabl yn llawer is na chyfran y bobl o oedran gweithio sy’n anabl yn Sir Benfro (cyf: Cyngor Sir Penfro - Gwybodaeth am Gyflogaeth 2018 - 19).

Anabledd

Mae cyfran cyflogeion Cyngor Sir Penfro sy’n anabl gryn dipyn yn is nag y gellid ei ddisgwyl. Ar sail y wybodaeth, y mae cyflogeion wedi’i chwblhau ar system reoli AD y Cyngor (Trent), mae 2% o gyflogeion y Cyngor yn anabl (ychydig yn uwch nag yn 2017 - 18). Canfu Cyfrifiad 2011 fod tua 8% o gyflogeion ar draws economi leol Sir Benfro yn anabl.

Anabledd	Nifer	Canran
Anabl	84	1.4%
Ddim yn anabl	4,044	67%
Ddim yn gwybod	1,867	31%
Cyfanswm	5,995	

Recriwtio pobl ag anabledd / anableddau

Daeth oddeutu 6% o geisiadau gan bobl anabl. O ystyried proffil oedran ymgeiswyr, gallech chi ddisgwyl y byddai tua 10% o geisiadau gan bobl anabl. Hyd yn oed o ganiatáu ar gyfer rhai pobl anabl sy'n dewis peidio â'u hadnabod eu hunain yn anabl, mae'r gyfran yn isel.

Mae cyfran y bobl anabl y cynigiwyd swydd iddyn nhw yn cyd-fynd yn fras â'r hyn y gellir ei ddisgwyl (neu ychydig yn is o bosibl). Fodd bynnag, mae nifer gymharol isel yr ymgeiswyr yn golygu ei bod yn anodd llunio casgliadau pendant. Nid yw gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol.

Unigolyn ag anabledd?	Cadwyd gwybodaeth yn ôl / dim gwybodaeth		Gwrthodwyd cyn y cyfweiliad		Cyfweiliad ond heb benodi		Cynnig neu penodwyd		Cyfanswm	
Nac oes	383	96%	3,979	97%	755	98%	333	97%	5,450	97%
Oes	10	3%	110	3%	18	2%	11	3%	149	3%
Ddim yn gwybod	6	2%		0%		0%		0%	6	0%
Cyfanswm	399		4,089		773		334		5,605	

Ethnigrwydd

Mae cyfran y cyflogeion o leiafrif ethnig yn is na'r gyfran ym marchnad lafur Sir Benfro. Nid yw cyfran y cyflogeion o leiafrif ethnig wedi newid rhyw lawer o flynyddoedd blaenorol. (cyf: Cyngor Sir Penfro – Gwybodaeth am Gyflogaeth 2018 – 19)

Mae mwyafrif helaeth o gyflogeion, sef 98.3%, o gefndir Gwyn Prydeinig / Seisnig / Gwyddelig / Gogledd Iwerddon / Albanaidd neu Gymreig. Mae hyn yn uwch na'r amcangyfrif diweddaraf o Gyfrifiad Sir Benfro yn 2011, sef 96.6% o'r grŵp oedran 16 – 65+. Prin mae'r gyfran wedi newid o 2013 – 14. Fodd bynnag, mae strwythur ethnig cyflogeion eraill wedi newid ychydig bach; yn y grŵp hwn, mae cyfran uwch o gefndir Gwyn Arall a chyfran ychydig yn is o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Ethnigrwydd	Nifer	Canran
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	31	0.5%
Gwyn - Arall	44	0.7%
Gwyn – y Deyrnas Unedig	4,447	74%
Ddim yn gwybod	1,473	25%
Cyfanswm	5,995	

Recriwtio pobl â chefnidir ethnig lleiafrifol

Mae cyfran yr ymgeiswyr allanol o gefndir heb fod yn Wyn yn y DU, a wnaeth gais am swydd, yn is na chyfran y bobl o oedran gweithio yn Sir Benfro. Mae cyfran yr ymgeiswyr o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gefndir Gwyn Arall a gafodd gynnig cyfweiliad yn is na chyfran gyfatebol yr ymgeiswyr Gwyn. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd cyfran yr ymgeiswyr sy'n Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, a gafodd eu cyfweld ac a aeth ymlaen wedyn i gael cynnig swydd neu gael eu cyflogi, yn is na'r gyfran gyfatebol ar gyfer ymgeiswyr Gwyn.

Roedd nifer y bobl o gefndir Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gefndir Gwyn Arall a aeth ymlaen i gael eu penodi tua hanner y nifer a allai fod yn ddisgwyliedig. Roedd nifer y bobl a benodwyd o gefndir Gwyn y DU yn cyd-fynd â'r hyn y gellir ei ddisgwyl. Fodd bynnag, roedd

cyfran y bobl lle na wnaeth yr ymgeisydd ddatgan ei ethnigrwydd a aeth ymlaen i gael cynnig neu'u penodi ddwywaith yn fwy na'r ffigur y gellid ei ddisgwyl.

Gan fod cyfran yr ymgeiswyr sydd wedi cael cynnig swydd neu'u penodi o gefndir ethnig lleiafrifol wedi bod yn is na'r rheiny o gefndir Gwyn – DU yn barhaus am y pum mlynedd ddiwethaf, mae hyn yn cryfhau'r achos am gynnwys amcan ynglŷn â hyfforddiant recriwtio yn y cynllun cydraddoldeb strategol diwygiedig.

Ethnigrwydd	Cadwyd gwybodaeth yn ôl / dim gwybodaeth		Gwrthodwyd cyn y cyfweiliad		Cyfweiliad ond heb benodi		Cynnig neu penodwyd		Cyfanswm	
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn cynnwys Gwyn Arall	12	3%	231	6%	26	3%	8	2%	277	5%
Gwyn y DU	358	90%	3,744	92%	694	90%	299	87%	5,095	91%
Ddim yn gwybod	29	7%	114	3%	53	7%	37	11%	233	4%
Cyfanswm	399		4,089		773		334		5,605	

Rhywedd a Chyflog

Ar 31 Mawrth 2019, roeddem yn cyflogi 5,995 o unigolion mewn 8,440 o swyddi. O'r rhain, mae 4,271 yn fenywod, a 1,724 yn ddynion. Mae menywod yn tueddu i fod mewn swyddi â chyflog is. Mae cyfran y menywod ar y graddau isaf wedi gostwng o ryw 80% i 78%. Mae cyfran y menywod ar y bandiau uchaf yn parhau'r un fath, sef 70%. Mae 65% o gyflogeion sydd â swyddi cyfatebol Gradd 9+ yn gweithio ym myd addysg, sydd â gweithlu menywod yn bennaf.

Mae dadansoddiad o gyfradd fesul awr yn rhoi darlun tebyg i hynny ar gyfradd y radd. Mae swyddi â chyfraddau cymharol is fesul awr yn fwy tebygol o gael eu llenwi gan fenywod na dynion. Mae llawer o fenywod yn y cyfraddau uchaf fesul awr yn gweithio mewn rolau addysg. Yn unol â Gradd, mae cyfran y menywod â'r cyfraddau cyflog isaf wedi gostwng ychydig bach. Fodd bynnag, mae'r gyfran â chyfraddau fesul awr yn y band uchaf wedi gostwng 1%.

Disgynnodd nifer y bobl â chontract cyfnod penodol 2.5%, a disgynnodd nifer y bobl â chontract penagored 2%. Roedd y gostyngiadau hyn wedi'u canoli ymhlith cyflogeion sy'n fenywod – roedd nifer y cyflogeion â chontract penagored a oedd yn wrywod heb newid ar y cyfan.

Yn yr un modd â 2017-18, mae cyfran y contractau achlysurol sy'n cael cyflog is yn uwch na'r rheiny sy'n benagored. (cyf: Cyngor Sir Penfro – Gwybodaeth am Gyflogaeth 2018 – 19).

Cynnig Gofal Plant Am Ddim yn Sir Benfro

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u seilio ar nifer y genedigaethau, yn dangos y gallai fod hyd at 1,089 o deuluoedd cymwys yn y sir. Fodd bynnag, ni fydd pob teulu yn gymwys. Mae 700 o deuluoedd yn manteisio ar y cynllun yn Sir Benfro ar hyn o bryd (cyf: Swyddog Gwybodaeth Gofal Plant Tri Deg Awr)

Oedran a Threfniadau Cytundebol

- Mae proffil oedran y cyflogeion yn hŷn nag ydyw ar gyfer Sir Benfro gyfan. Fodd bynnag,

mae'r gwahaniaeth rhwng 2018-19 a 2017-18 a blynyddoedd blaenorol yn gymharol fach

- Mae dros hanner y cyflogeion yn rhan-amser (h.y. sy'n gweithio llai na 30 awr yr wythnos). Mae'r gyfran hon wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae gan bedwar o bob pump o bobl gontractau parhaus. Contract achlysurol yn unig sydd gan 13% o bobl, sydd yr un fath â mis Mawrth 2018

(cyf: Cyngor Sir Penfro – Gwybodaeth am Gyflogaeth 2018 – 19).

Fe wnaethom edrych ar nifer y bobl ifanc (25 oed neu'n iau) sy'n cael eu cyflogi gennym ni ar gontractau heblaw contractau amser llawn penagored.

O ystyried cyfanswm nifer y cyflogeion sydd gennym ni, a chyfanswm nifer y bobl sy'n 25 oed neu'n iau o fewn hyn, byddem wedi disgwyl y byddai 295 o bobl ifanc yn cael eu cyflogi ar gontract amser llawn penagored, ac y byddai 86 yn cael eu cyflogi ar sail achlysurol, cyfnod penodol neu ran-amser.

Fodd bynnag, canfuom fod 261 o bobl ifanc yn cael eu cyflogi ar sail achlysurol, cyfnod penodol neu ran-amser, a dim ond 120 o bobl ifanc, 25 oed neu'n iau, oedd yn cael eu cyflogi ar sail amser llawn penagored.

Mae hyn yn cyferbynnu â'r rheiny sy'n 25 oed neu'n hŷn, lle roedd 4,524 yn cael eu cyflogi ar gontractau amser llawn penagored, a 1,090 yn cael eu cyflogi ar sail achlysurol, cyfnod penodol neu ran-amser. O fewn y grŵp oedran hwn, byddem wedi disgwyl gweld 4,349 ar gontract amser llawn penagored, a 1,265 ar sail achlysurol, cyfnod penodol neu ran-amser.

Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r angen am adolygu'r defnydd o gontractau cyflogaeth ansicr o fewn y Cyngor yn gyffredinol, ac mewn perthynas â chyflogi pobl ifanc gan y Cyngor, sef 25 oed neu'n iau, yn benodol.

Prentisiaethau

- Rydym ni wedi mabwysiadu Polisi Prentisiaeth sy'n ceisio nodi swyddi prentisiaeth posibl o fewn ymarfer cynllunio gweithlu cyfannol
- Mae FutureWorks, sef ein his-adran darparwyr dysgu yn y gwaith, yn parhau i ddarparu rhaglen sgiliau. Rydym ni wedi gweithio gydag ystod o ddarparwyr hyfforddiant i gyflwyno Prentisiaethau ar ran yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu prentisiaethau mewn ystod o sectorau ar hyn o bryd
- Trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, ac mewn partneriaeth â Choleg Penfro, lluniwyd Canllaw Cyflogwr i Brofiad Gwaith yn Sir Benfro (Employer Guide to Work Experience in Pembrokeshire)

(cyf: Adolygiad Gwelliant 2018 – 19)

Trechu Tlodi Sir Benfro

Prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yw hwn, a fydd yn cael ei gefnogi tan 2023. Bydd y prosiect yn cynorthwyo pobl sydd mewn gwaith ond sy'n profi tldi mewn gwaith o ganlyniad i salwch, anabled neu am eu bod wedi eu tangyflogi (h.y. yn gweithio llai o oriau nag y maent yn dymuno). Bydd yn canolbwyntio ar y sector gofal cymdeithasol lle mae heriau o ran recriwtio a chadw. Nod y prosiect yw ymgysylltu â 240 o bobl a gwella lles economaidd 180 o bobl.

Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae Cyngor Sir Penfro wedi cofrestru ar gyfer Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth

Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu yn rhoi manylion am ystyriaethau ar gyfer cydymffurfio â'r 12 Ymrwymiad, sydd wedi eu cynllunio i ddileu caethwasiaeth fodern, a chefnogi arferion cyflogaeth foesegol. Mae camau gweithredu dilynol wedi cynnwys llunio Polisi Cyflogaeth Foesegol, hyfforddiant gorfodol ar gaethwasiaeth fodern, ac annog cyflenwyr y Cyngor i gofrestru ar gyfer Cod Ymarfer.

ADDYSG

Darparu cymorth fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn uchafu ei botensial a lleihau anghydraddoldeb

Y DARLUN CENEDLAETHOL

- At ei gilydd, mae plant ysgol yng Nghymru yn cyflawni sgorau mewn darllen, gwyddoniaeth a mathemateg islaw'r rheiny yn Lloegr a'r Alban a'r rhan fwyaf o wledydd datblygedig eraill
- Mae cyrhaeddiad addysgol ym mlynnyddoedd cynnar plant wedi gwella ar y cyfan
 - O ganlyniad i welliannau cyflymach na'r gyfradd gyfartalog, mae bechgyn, plant sy'n cael pryddau ysgol am ddim (PYDd) a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi lleihau'r bwlch cyrhaeddiad er 2012
 - Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad plant â rhai mathau o nam, fel nam ar y clyw, wedi gwaethygu
- Mae bylchau mewn cyrhaeddiad ar oedran gadael yr ysgol yn parhau ar gyfer plant ag ADY a'r rheiny sy'n gymwys am PYDd
- Mae cyfraddau gwahardd ymhlith plant tlotach, plant ag ADY, plant gwyn a phlant o ethnigrwydd cymysg, yn uwch na'r cyfartaledd
- Mae rhai grwpiau o blant yn wynebu mwy o berygl o gael eu bwlio nag eraill. Mae bwlio rhywiaethol yn tueddu i gael ei dargedu at ferched, tra bod plant lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol, a phlant ag ADY, hefyd yn fwy tebygol o ddioddef bwlio
- Mae cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf
- Mae'r rhaniad rhwng y rhywiau yn amlwg mewn dewisiadau pwnc a gyrfa, ac mae merched yn llawer llai tebygol o barhau i astudio gwyddoniaeth a mathemateg ar ôl yr ysgol
- Mae ymgysylltu â dysgu gydol oes (cyrsiau addysg neu hyfforddiant yn gysylltiedig â swydd) wedi gostwng er 2013/14, gan gynnwys ymhlith pobl iau 25–34 oed

(cyf: Pa mor Deg yw Cymru?)

BETH SY'N DIGWYDD YN LLEOL?

Deilliannau

Mewn llawer o ddangosyddion cyrhaeddiad allweddol dysgwyr, mae Sir Benfro yn perfformio uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan, ac yn cymharu'n ffafriol yn erbyn awdurdodau lleol tebyg. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud o hyd i wella deilliannau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer rhifedd a gwyddoniaeth, a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio, o ganlyniad.

Mae angen gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn yr un modd â'r deilliannau ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog, gan gynnwys y rheiny sy'n ennill graddau A –A* mewn TGAU a Safon Uwch.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn Gweithredu gan yr Ysgol a dysgwyr ar ddatganiad yn cyflawni yn unol â'u cyfoedion, neu uwchlaw hynny, yn genedlaethol dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â thueddiadau cenedlaethol a lleol, ond yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n dilyn Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy yn cyflawni islaw eu cyfoedion yn genedlaethol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen a CA4.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cyflawni islaw eu cyfoedion yn genedlaethol ym mhob cyfnod allweddol, er bod tuedd o welliant dros dair blynedd yn CA2. Yn CA4, mae cyflawniad dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn Saesneg yn cyd-fynd â chyflawniad eu cyfoedion mewn ALLau tebyg ac yn genedlaethol, neu'n uwch, heblaw cyflawniad mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ac ar y sgôr pwyntiau wedi'i chapio.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cefnogi presenoldeb disgyblion sy'n agored i niwed yn effeithiol; mae presenoldeb ar gyfer disgyblion ag ADY wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Er bod cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi gostwng yn y tair blynedd ddiwethaf, mae gormod o ddisgyblion yn cael eu gwahardd o nifer fach o ysgolion o hyd, ac mae cyfradd gyffredinol y gwaharddiadau ar draws yr awdurdod lleol yn parhau i fod yn rhy uchel. Mae llawer o gryfderau, ac mae angen gwelliant parhaus ar un maes yn unig, hynny yw y deilliannau ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth mewn rhai ysgolion uwchradd.

Darpariaeth

Mae'r awdurdod lleol yn cydlynu, yn cefnogi ac yn darparu ystod eang o wasanaethau cyffredinol a thargedig. Caiff y rhain eu defnyddio'n effeithiol iawn ac mewn modd amserol i hyrwyddo cynhwysiant a lles yr holl blant a phobl ifanc, ac mae'n cefnogi bron yr holl ddisgyblion sy'n agored i niwed i gyflawni deilliannau da. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol i ddarparu continwwm cymorth da ar gyfer y disgyblion hynny sydd â'r angen isaf i'r angen mwyaf. Er bod rhywfaint o amrywioldeb mewn nifer fach o ysgolion ar lefel y cynwysoldeb a brofir yn yr ystafell ddosbarth, bodlonir anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr. Mae cymorth ar gyfer rhieni a gofalywyr disgyblion ag ADY yn gryf gan fod gwasanaeth partneriaeth rhieni integredig sefydledig sy'n gwella cyfathrebu, yn lleihau'r angen am ymyriadau ychwanegol ac yn effeithio'n effeithiol ar ddeilliannau'r dysgwyr y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd da o ystod o ddata i nodi anghenion a chynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed dros gyfnod, ac fe'i defnyddir i herio darparwyr yn effeithiol i wella ansawdd yr addysg. Hefyd, fe'i defnyddir i ymchwilio a chyflwyno prosiectau wedi'u harwain gan ymchwil, gan gynnwys y Rhaglen hynod lwyddiannus Sgrinio Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar, sydd bellach yn cael ei defnyddio mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen ac ar draws lleoliadau'r Blynyddoedd Cynnar. Mae llawer o gryfderau, gan gynnwys rhai elfennau o arfer ragorol.

Arweinyddiaeth

Rydym yn hyderus fod trefniadau diogelu cadarn ar waith. Mae'r Cyfarwyddwr ar gyfer Plant ac Ysgolion yn gyfarwyddwr arweiniol ar gyfer diogelu, ac mae'n hyrwyddo dull awdurdod cyfan. Caiff ei gyfleu yn glir i staff fod diogelu yn fater i bawb. Cytunwyd ar Strategaeth Ddiogelu newydd yn 2018 gyda chymorth a chefnogaeth wleidyddol gyflawn, ac mae'n darparu cyfarwyddiadau clir a phendant i bob un o'r staff ar sut y dylid ymdrin â materion diogelu posibl. Cafwyd adborth o adolygiad diogelu corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'r cynllun gweithredu wedi cael ei roi ar waith.

Deilliannau Gwerthuso

Yn y rhan fwyaf o ddangosyddion o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3, mae deilliannau'n debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol ar y cyfan, neu'n well. Ceir perfformiad hynod gryf a chynaledig mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi bod yn fwy amrywiol dros y 3 blynedd ddiwethaf, ond mae wedi bod yn gryf a chynaledig iawn yn gyson mewn Cymraeg iaith gyntaf. Mewn sgiliau Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn trwy gyfnodau allweddol 3 a 4, ac maent yn gryf a chynaledig iawn ac yn rhagorol dros gyfnod.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn parhau i wella ar y lefel ddisgwyliedig, ac mae'n well na pherfformiad cenedlaethol yn 2018 ym mhob dangosydd, ac mewn llawer o ddangosyddion yn 2019. Fodd bynnag, ar y lefelau uwchlaw'r lefelau disgwyliedig, mae deilliannau wedi gostwng yn 2019, ac felly mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol da ar draws ystod o leoliadau, gan gynnwys ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae rhagor o waith i'w wneud o hyd mewn ychydig iawn o ysgolion i ddatblygu sgiliau plant yn fwy effeithiol.

Mae'r deilliannau ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros gyfnod yn parhau i fod yn rhy amrywiol. Mae'r bwlch rhwng y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rheiny nad ydynt yn gymwys amdanynt yn rhy eang.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd disgwyliedig ym mhob sector. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau cyson ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, mae mwy o waith i'w wneud o hyd i wella perfformiad ar lefelau uwch ar draws yr holl gyfnodau allweddol a sectorau.

Mae deilliannau yng nghyfnod allweddol 5 ar drothwy lefel 3 yn dda ac yn debyg i ddeilliannau cenedlaethol gyda sgôr pwyntiau ehangach uwch na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae 97.6% o fyfyrwyr yn cyflawni trothwy lefel 3, ac mae'n parhau i fod uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 97.5%.

Yn 2018-19, manteisiodd ein dysgwyr chweched dosbarth mwyaf abl a thalentog ar 45 o gyfleoedd ymgysylltu Seren i godi eu dyheadau. Mae dilyniant i 30 o Brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton wedi cynyddu o 55 yn 2017, i 104 yn 2019.

Mae canran y dysgwyr Blwyddyn 11 a ddaeth yn NACH wedi gostwng o 3.1% yn 2012 i 1.5% yn 2018, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 1.6%. Mae hwn yn faes ffocws allweddol ar gyfer leuenctid Sir Benfro, sy'n rhan allweddol o'r gweithlu ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid.

Mae ffigurau NACH cyfunol Haen 1 i 3 (carfan dysgwyr 16-19 mlwydd oed) yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru yn 2019. Ym mis Chwefror, roedd 51 o ddysgwyr nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (0.16% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 0.4%; yr Awdurdod Lleol yn y 4^{ydd} safle gorau); ym mis Gorffennaf, cynyddodd y niferoedd i 138 (0.21% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 0.3%; Awdurdod Lleol yn y 10^{fed} safle gorau).

Mae bron pob un o'r disgyblion sydd ag ADY neu ADY sy'n dod i'r amlwg yn gwneud cynnydd priodol ac amserol o'r adeg pan maent yn dechrau mewn addysg. Mae hyn oherwydd bod bron pob ysgol gynradd yn sgrinio'n gywir, ac yn darparu cymorth cynnar ychwanegol effeithiol i ddisgyblion ag ADY.

Mae disgyblion ag ADY yn Sir Benfro wedi perfformio'n well na'u cyfoedion yn genedlaethol am y tair o'r pedair blynedd ddiwethaf o ran deilliannau dangosydd pwnc craidd yn CA3 a Lefel 2 yn gynhwysol yn CA4. Mae bron pob disgybl sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd cyflym wrth ddatblygu eu sgiliau iaith, a thros y 4 blynedd ddiwethaf, bu cyflawniad y grŵp hwn yn unol â chyflawniad pob plentyn yn genedlaethol, neu'n well.

Trwy fenter Cynnydd yr Awdurdod Lleol, mae cyfanswm o 832 o ddysgwyr yr ystyriwyd eu bod fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg wedi manteisio ar gyfleoedd ymgysylltu er mis Medi 2016, gan arwain at ddeilliannau a chymwysterau gwell.

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc mewn lleoliadau addysg amgen yn gwneud cynnydd da, ac mae cyfraddau ailintegreiddio'n llwyddiannus yn ôl i'r brif ffrwd ar gyfer disgyblion iau yn uchel. Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau cymorth â ffocws ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed trwy amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a sesiynau ABCCh. Er enghraifft, mae partneriaethau cryf â Hafan Cymru, Prifysgol Bangor (Canolfan ar gyfer Ymyrraeth Gynnar yn seiliedig ar Dystiolaeth), Stonewall Cymru, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yn Heddlu, a Gweithredu dros Blant.

Mae'r awdurdod lleol wedi dechrau prosiect peilot gyda Chomisiynydd Heddlu Dyfed Powys, KiVa International, Prifysgol Bangor a'r Bwrdd Diogelwch Cymunedol Lleol i ddatblygu rhaglen© gwrthfwlio / perthnasoedd iach mewn wyth ysgol, gan gynnwys dwy ysgol uwchradd. Yr ysgolion hyn yw rhai o'r cyntaf yn y DU i ddatblygu'r rhaglen gwrthfwlio hon sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn gadarnhaol ynglŷn â chynnwys a strwythur y wers. Dywedodd y rhan fwyaf o athrawon fod disgyblion yn dangos diddordeb a brwdfrydedd yn y gwersi. Dywedodd y rhan fwyaf o athrawon fod KiVa wedi cael effaith gadarnhaol ar y canlynol: lles plant, ymddygiad rhag-gymdeithasol, ac awyrgylch dosbarth a maes chwarae. Yn ystod gwiriadau iechyd diogelu yn yr ysgol, mae disgyblion yn hynod frwdfrydig ac yn cael eu cymell gan y rhaglen.

Mae Fforwm Ieuenctid Sir Benfro wedi bod yn weithredol er 2001. Mae'r awdurdod lleol wedi penodi Swyddog Plant a Phobl Ifanc dynodedig sy'n gweithio gyda staff cyswllt o'r holl ysgolion uwchradd prif ffrwd. Caiff grwpiau o bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ac yn agored i niwed eu cynrychioli'n ffurfiol ar y Cynulliad Ieuenctid trwy gynrychiolwyr o fforymau arbenigol neu grwpiau cynrychioliadol priodol eraill.

Mae presenoldeb disgyblion ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae presenoldeb y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cydfynd yn fras â rhai eu cyfoedion nad yw Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd llawn o'i bwerau cyfreithiol i orfodi gorchmynion addysg ar gyfer y teuluoedd hynny sydd, er eu bod yn cael cynnig cymorth priodol, yn methu sicrhau addysg eu plentyn yn gyson, gan gynnwys plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd wedi cofrestru yn yr UCD yn gwella eu presenoldeb yn sylweddol, o gymharu â'u safle pan fyddant yn dechrau yno, ac mae cyfraddau'r gwaharddiadau o'r ddarpariaeth wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd da ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol, ac mae nifer dda yn cymryd rhan ynddynt. Mae hyn oherwydd bod ansawdd ein darpariaeth i ddatblygu cerddoriaeth a chwaraeon yn rhagorol. Gwyddom fod hyn oherwydd bod ein rhaglenni blynyddol treigl ar gyfer arsylwi cyfoedion yn dangos cyflwyno o ansawdd uchel. Hyd y gwyddom ni, y broses hon yw un o'r unig systemau sicrhau ansawdd gweithredol yng Nghymru.

Mae'r gwasanaethau hefyd yn mesur effaith mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys arolygon hunan-ffeithlonrwydd, cyfraddau cyfranogi, niferoedd aelodaeth, archwiliadau a ffurflenni adborth. Ni oedd yr 2^{il} ALI yng Nghymru i ennill yr achrediad 'Arian Insport' Chwaraeon Anabledd Cymru, ac yn un o'r 6 ALI yn unig yng Nghymru o hyd i gyflawni'r nod barcod hwn.

Er 2015, mae aelodau o glybiau chwaraeon anabledd gweithredol wedi mwy na threblu, mae hyfforddwy anabledd gweithredol penodol wedi mwy na dyblu, mae gwirfoddolwyr gweithredol a chlybiau yn benodol ar gyfer anabledd wedi dyblu, ac mae'r cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon i'r anabl wedi treblu.

Yn ddiweddar, cafodd cynllun GOGA Chwaraeon Sir Benfro (Codi Allan a Bod yn Egniol) Wobr Genedlaethol y BBC am 'Gael Cymru yn Egniol' ('Getting Wales Active'), a chydabyddir y cynllun fel un sy'n cyflwyno arfer gorau am alluogi pobl anabl i fod yn egniol yn yr awyr agored.

O ganlyniad i'r canfyddiadau yn adroddiad Arolwg Chwaraeon Ysgol yr ALI yn 2015, rhoddodd Chwaraeon Sir Benfro flaenoriaeth i adnoddau i ganolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau sy'n agored i niwed (h.y. disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion ag ADY), yn ogystal ag ymgysylltu â merched. Dangosodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2018 fod y bwlch cyfranogi rhwng y rhywiau wedi gostwng o 7.5% i 2% yn unig (bechgyn 48% merched 46%). (Cymru 4%). Roedd 8.2% o gynnydd mewn merched oedran uwchradd y diffiniwyd eu bod yn 'Ymddiddori'n Fawr mewn Chwaraeon' (yn egniol o leiaf 3 gwaith yr wythnos) (40.2% i 48.4%) (Cymru 45.7%). Roedd 5% o gynnydd mewn Aelodau Clwb Chwaraeon lau (59% i 64%) (Cymru 59%).

Mae cyfraddau cyfranogi gan bobl anabl gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (17% Sir Benfro, Cymru 12%). Mae hyn yn hynod amlwg yn yr oedran uwchradd (Sir Benfro 18.2%, Cymru 11%).

Mae rhaglen Chwaraeon Addysg Ddewisol yn y Cartref Sir Benfro wedi cael canmoliaeth genedlaethol gan Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â 33 o deuluoedd (54 o blant 3-15 oed). Ers hynny, mae llawer o'r plant wedi ymuno â chlybiau chwaraeon cymunedol, wedi perfformio mewn gwyliau rhwng ysgolion, enillodd 44 o blant Wobrau Dringo NICAS lefel 1, ac fe gafodd sawl plentyn fathodynau nofio annibynnol.

Deilliannau Blaenoriaethau ar gyfer Gwella

Mae gwasanaethau gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol i les dysgwyr. Mae ymgynghorwyr her yn gweithio'n dda gyda swyddogion lles addysg i herio ysgolion yn effeithiol ynglŷn â'r cymorth ar gyfer presenoldeb a gwaharddiadau mewn ysgolion, sydd wedi cynorthwyo i sicrhau presenoldeb gwell a lleihau gwaharddiadau.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu data o ansawdd da i ysgolion, ac yn defnyddio ei fodel OAP yn effeithiol. Caiff ei ddefnyddio'n eang gydag ystod dda o gynulleidfaoedd, gan gynnwys athrawon, uwch arweinwyr, penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr a swyddogion i herio ysgolion i wella. Mae'r dangosfwrdd llywodraethwyr yn HWB yn darparu gwybodaeth amserol a chywir ar gyfer llywodraethwyr i ysgolion. Caiff ysgolion sy'n achosi pryder eu monitro'n effeithiol trwy baneli gwella ysgolion a chyfarfodydd adolygu cynnydd.

Mewn partneriaeth â'r Cynllun Cyn-ysgolion Iach, mae'r awdurdod lleol wedi cyflwyno Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Brofiad Niweidiol yn ystod Plentynod yn effeithiol i 18% o'r sector gofal plant. Fodd bynnag, bydd rhagor o gyrsiau'n cael eu cynllunio i sicrhau eu bod yn ymestyn yn ehangach.

Mae'r Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol (TAPPAS) yn cynnwys grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi ysgolion a theuluoedd i adnabod disgyblion ag ADY yn gynnar, a rhoi ymyriadau ar waith ac olrhain disgyblion. Mae pob ysgol yn mynychu cyfarfodydd tymhorol TAPPAS 1 sy'n cefnogi ysgolion i adnabod disgyblion ag ADY yn gynnar. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynychu cyfarfodydd tymhorol TAPPAS 2. Mae TAPPAS 3 yn canolbwyntio ar gefnogaeth i deuluoedd ar rianta a deall anghenion ADY. Mae fforwm TAPPAS yn darparu cyfle i ddatblygu cydweithio rhwng ysgolion ac asiantaethau, gan annog gwelliant o ysgol i ysgol a hunanwelliant clwstwr lleol.

Dangosodd arolwg diweddar TAPPAS (1, 2 a 3: Partneriaeth Rhieni) fod bron pob ysgol yn cytuno bod proses TAPPAS yn darparu amgylchedd cefnogol i ysgolion rannu arfer da, ac ystyried meysydd cyffredin i'w datblygu, gan ddangos arfer effeithiol i gefnogi a grymuso cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynwyr ADY).

Mae bron pob ysgol gynradd a nifer gynyddol o feithrinfeydd y blynyddoedd cynnar / meithrinfeydd a gynhelir a meithrinfeydd nas cynhelir, bellach yn sgrinio pob disgybl yn rheolaidd pan fyddant yn dechrau i asesu eu risg o gael neu ddatblygu anawsterau llythrennedd neu gyfathrebu. Wedyn, caiff disgyblion unigol eu hadnabod, a bydd ymyriadau priodol yn dechrau bron ar unwaith. Mae data yn dangos bod y rhaglen hon yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau ar gyfer y dysgwyr ifanc iawn hyn, ac mae nifer y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol neu gymorth parhaus yn gostwng.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth ac adnoddau ychwanegol o ansawdd da a chynlluniedig i leoliadau'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys meithrinfeydd nas cynhelir a meithrinfeydd annibynnol ar ystod o feysydd, gan gynnwys adnabod a chefnogi plant ag ADY a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. O ganlyniad i hyn, mae anghenion llawer o blant sy'n dechrau addysg orfodol o leoliadau eraill eisoes wedi cael eu hasesu, ac mewn rhai achosion, mae ymyriadau eisoes wedi dechrau. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynychu Fforymau tymhorol Cydlynwyr ADY. Mae'r fforwm yn cwmpasu ystod eang o feysydd i gefnogi datblygiad proffesiynol, ac yn galluogi ysgolion i rannu a dathlu arfer da. Mae Fforymau Cydlynwyr ADY diweddar wedi canolbwyntio ar rôl y Cydlynnydd ADY a Diwygio Statudol ADY.

Mae Cyfeiriaduron Hyfforddiant Gwasanaeth Cynhwysiant Blynyddol yn cynnwys rhaglenni datblygiad proffesiynol cynhwysfawr (DPP) a arweinir gan swyddogion Gwasanaeth Cynhwysiant yr awdurdod a staff arbenigol eraill, ac yn seiliedig ar arferion wedi eu harwain gan ymchwil. Mae bron pob ysgol wedi manteisio ar yr hyfforddiant hwn. Cyflwynir rhaglenni hyfforddiant teilwredig i ddiwallu anghenion lleoliadau a chlystyrau unigol i'w grymuso i gynorthwyo eu dysgwyr ag ADY.

Mae gwefan y Gwasanaeth Cynhwysiant yn cynnwys gwybodaeth ac adnoddau o ansawdd da. Roedd bron pob un o'r ysgolion a gymerodd ran mewn arolwg diweddar yn cytuno bod yr adnoddau ar wefan y Gwasanaeth Cynhwysiant yn ddefnyddiol iawn i gefnogi eu harferion addysgegol.

Mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi llawer o ysgolion cynradd yn llwyddiannus i fod yn fwy cynhwysol, er bod mwy o waith i'w wneud o hyd. Mae canran y plant y nodwyd eu bod yn cael cymorth Gweithredu gan yr Ysgol wedi gostwng rhywfaint yn y ddau sector dros y 3 blynedd ddiwethaf, sy'n arwydd fod anghenion mwy o blant yn cael eu diwallu mewn darpariaeth brif ffrwd. Adlewyrchir y gwelliant hwn mewn cynwysoldeb hefyd yn y gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol yn y sector cynradd dros y 3 blynedd ddiwethaf, a gwelliant mewn presenoldeb gyda'r grwpiau hyn o ddisgyblion.

Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau datblygedig ar waith i baratoi systemau, ac mae'n hyfforddi staff i baratoi ar gyfer y diwygiadau ADY newydd. Mae'r holl randdeiliaid, gan gynnwys rhieni a phobl ifanc, wedi cael eu cynnwys yn y broses, a'r deunydd hyfforddi yn ymgorffori pecyn i rieni. Mae bron pob un o staff a rhieni'r canolfannau adnoddau dysgu, yn ogystal â'r ysgol arbennig, wedi cael hyfforddiant gan seicolegwyr addysg mewn adolygiadau cynllunio yn canolbwyntio ar yr unigolyn a pharatoi cynlluniau datblygu unigol. O ganlyniad i hyn, mae ychydig o ganolfannau adnoddau dysgu wedi symud trwy'r hyfforddiant peilot, gan gynhyrchu cynlluniau datblygu unigol o ansawdd da mewn adolygiadau statudol.

Mae gan bron bob ysgol o leiaf un cynorthwydd cymorth dysgu sydd wedi cael hyfforddiant Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA) i gefnogi lles emosiynol disgyblion, ac mae gan bob ysgol uwchradd ei chwmselydd eu hun yn yr ysgol. Mae Cynorthwyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan y gwasanaeth seicoleg addysg yn ystod goruchwyliaeth bob hanner tymor yn fawr. Mae'r rhaglen ymyrraeth hon yn cael ei chyflwyno i ddarparwyr y Blynyddoedd Cynnar ar hyn o bryd. Cafodd cam cyntaf yr hyfforddiant ei raddio'n rhagorol gan yr holl gynrychiolwyr.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig darpariaeth gwnsela annibynnol i'r holl ysgolion uwchradd, yn ogystal ag yn Ysgol Arbennig Portfield, Canolfan Ddysgu Sir Benfro a darpariaeth gwnsela beripatetig trwy TAPPAS 1 ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd. Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo mynediad hwylus at ddarpariaeth gwnsela sydd ag ystafelloedd cwnsela dynodedig yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd. Mae 'cyrhaeddiad' y gwasanaeth yn dda, â chyfradd y disgyblion sy'n manteisio ar gwnsela (fesul 100 o bobl ifanc 10-18 mlwydd oed sy'n byw) yn Sir Benfro yn 5.4, sy'n uwch na ffigur Cymru Gyfan o 3.7. O'r disgyblion hynny a ymatebodd i'r arolwg cwnsela yn yr ysgol, dywedodd 75% eu bod yn gallu canolbwyntio mwy yn yr ysgol ar ôl cael eu cwnsela, ac o'r rheiny oedd â phroblem â phresenoldeb ysgol, nododd 100% fod cwnsela wedi'i gwneud yn haws iddynt fynychu. Mae disgyblion yn ystyried bod gallu siarad â rhywun yn gyfrinachol heb gael eich barnu yn un o nodweddion y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol wedi sefydlu perthnasoedd gwaith gyda Gweithwyr Iechyd Meddwl Sylfaenol a gall cwnselwyr ysgol atgyfeirio'n uniongyrchol i CAMHS Arbenigol.

Mae systemau effeithiol ar waith i fonitro'r bobl ifanc hynny y mae eu rhieni'n penderfynu eu dad-gofrestru o'r ysgol. Mae cyfradd y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref fesul 1,000 o ddisgyblion yn uchel, yn gyffredin â'n ALLau cyfagos, ond Sir Benfro hefyd sydd â'r nifer 4^{ydd} uchaf yng Nghymru o blant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn dychwelyd i'r ysgol.

Mae gwasanaeth addysg ddewisol yn y cartref yr awdurdod lleol yn sicrhau bod rhieni'n gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i barhau i addysgu eu plentyn, ac yn hwyluso mynediad at wasanaethau eraill fel y gwasanaeth nyrsys ysgol, gweithwyr ieuenctid a chymorth iechyd meddwl.

Mae swyddog dynodedig ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref yn darparu cymorth i sicrhau bod y rhieni'n gwneud dewisiadau gwybodus, a lle gallai darparu cymorth ychwanegol alluogi dysgwyr i aros yn yr ysgol, bod cymorth o'r fath yn cael ei gynnig. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod nifer y rhieni sy'n parhau i ddadgofrestru eu plentyn yn dilyn cymorth rhagweithiol i aros yn yr ysgol yn gostwng. Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn adolygu achosion plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yn rheolaidd er mwyn monitro eu lles a gallu rhieni i ddarparu lefel briodol o addysg.

Cyflwynwyd y dull ymddygiad ar draws Sir Benfro i gefnogi ysgolion a mynd i'r afael ag ymddygiad gwael yn effeithiol ac yn gyson, a lleihau gwaharddiadau. Lansiodd y dull ar draws yr awdurdod lleol ym mhob lleoliad uwchradd yn 2018, gan amlinellu'r egwyddorion ynghyd ag

ystod o adnoddau ffisegol a chymorth a chyingor ymarferol. Mae gweithio clwstwr yn cael ei gywreinio i ddiwallu anghenion lleol a chymunedol penodol.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod defnyddio symudiadau rheoledig i ddisgyblion allu dechrau o'r newydd yn gallu bod yn ddefnyddiol mewn rhai achosion. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â'r penaethiaid uwchradd i ddatblygu polisi ar gyfer symudiadau rheoledig. Bydd nifer y symudiadau a'r rhesymau yn cael eu monitro'n ofalus, a bydd unrhyw drosglwyddiad a ystyrir yn amhriodol yn cael ei herio'n gadarn.

Mae'r UCD yn darparu safon dda o addysg a gofal ar gyfer ei disgyblion, a gellir cael mynediad ati trwy broses raddedig effeithiol ac amserol. Mae ailintegreiddio llwyddiannus yn digwydd ar gyfer bron yr holl ddisgyblion ifanc yng nghyfnod allweddol 2, a llawer yng nghyfnod allweddol 3 yn ôl i'w lleoliad prif ffrwd, ac fe gaiff ei gynllunio'n dda trwy CDU priodol. Mae gan bob disgybl mewn darpariaethau cyfnod allweddol 4 lwybrau ôl-16 clir. Mae gweithio'n gryf mewn partneriaeth â darparwyr lleol, Gyrfa Cymru a'r UCD yn galluogi cyfnod pontio a gefnogir, sy'n dechrau ym Mlwyddyn 10.

Gan weithio o dan arweinyddiaeth uniongyrchol Pennaeth yr UCD, mae'r athrawon cymorth ymddygiad yn darparu cymorth dosbarthedig yn lleol ar gyfer ysgolion gan sicrhau ymyriadau amserol a chynlluniedig i gynorthwyo disgyblion ag ymddygiadau heriol. Mae'r dull cymorth yn cryfhau gallu ysgolion, ac yn darparu cymorth arbenigol unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth yn ogystal. Mae hefyd yn galluogi ymyrraeth gynnar gan athrawon cymorth ymddygiad ar gyfer disgyblion a allai elwa ar y ddarpariaeth UCD llwybr carlam dros dro. Mae gwaith targedig a chynlluniau gweithredu unigol ar waith ar gyfer grŵp bach o ysgolion lle mae ymddygiadau a chyfraddau gwaharddiadau yn peri pryder.

O ganlyniad i'r dulliau hyn, mae cyfradd y gwaharddiadau tymor byr o bum niwrnod neu lai ar draws pob sector wedi gostwng yn sylweddol dros y 3 blynedd ddiwethaf – 58.8 fesul 1,000 yn 15/16, i 40.4 yn 17/18. Mae cyfradd Cymru wedi cynyddu dros yr un cyfnod, o 30.9 i 36.7.

Mae cyfradd y gwaharddiadau o 5 diwrnod neu fwy yn Sir Benfro wedi cynyddu dros yr un cyfnod, o 1.2 y fil, i 1.8 y fil, ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru ar y cyfan, sef 1.7 y fil.

Trwy fenter Cynnydd yr Awdurdod Lleol, mae cyfanswm o 832 o ddysgwyr y tybir eu bod fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o'u haddysg wedi manteisio ar gyfleoedd ymgysylltu er mis Medi 2016. Mae darpariaeth wedi cael ei thargedu tuag at Ysgol Harri Tudur (22%), Ysgol Aberdaugleddau (16%), Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlfordd (15%) a'r Gymuned Ddysgu Broffesiynol (14%). Trwy'r fenter, mae 38% o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau ychwanegol. Mae 370 o ddysgwyr (44%) yn gymwys am brydau ysgol am ddim, ac 161 o ddysgwyr wedi ennill cymhwyster hyd yma. Mae 570 o ddysgwyr (69%) yn ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig, gyda 251 yn ennill cymwysterau. Mae 18 o ddysgwyr (2%) yn blant sy'n derbyn gofal, gyda 7 yn ennill cymwysterau.

Mae Tîm y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae'r awdurdod lleol yn cyflwyno ystod o hyfforddiant yn effeithiol ar gyfer y sector gofal plant i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau sy'n agored i niwed o fewn sector y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae. Er enghraifft, Ymlyniad ac Ymgysylltu, Ymddygiad yn y Blynyddoedd Cynnar, Cynorthwydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol y Blynyddoedd Cynnar.

Mae presenoldeb mewn ysgolion yn Sir Benfro yn dda erbyn hyn. Mae hyn oherwydd bod presenoldeb mewn ysgolion yn Sir Benfro wedi gwella o 93.3% yn ystod blwyddyn academaidd 15/16 (1.1 pwynt canran islaw cyfartaledd Cymru) i 93.8% yn ystod blwyddyn academaidd 17/18

(yn unol â chyfartaledd Cymru). Mae safle Sir Benfro yn erbyn y 21 awdurdod lleol arall wedi gwella dros y cyfnod hwn o safle 21 i 12. Mae Absenoliaeth Barhaus wedi gostwng o 5.7% yn 14/15 (cyfartaledd Cymru 4.5%), i 4.1% yn 17/18 (cyfartaledd Cymru 4.6%). Bu gwelliant ym mhresenoldeb disgyblion oedran uwchradd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, o 87.8% (Cymru 90.2%) yn 15/16, i 89.0 (Cymru 89.7%) yn 17/18.

Roedd presenoldeb cynradd (94.9% yn 15/16) wedi bod yn unol â chyfartaledd Cymru am sawl blwyddyn, ond yn 18/19, roedd yn 94.8% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 94.6%. Yn 17/18, llwyddodd Sir Benfro i wella'i safle o 10^{fed} i 4ydd. Bu gwelliant pellach o 0.4 pwynt canran mewn presenoldeb ysgolion cynradd yn 18/19. Absenoliaeth barhaus yn y sector cynradd yw'r 3^{ydd} isaf yng Nghymru, gan ostwng o 1.6% yn 15/16, i 1.3% yn 17/18, yn unol â chynnydd yn genedlaethol, o 1.5% i 1.7%. Bu ychydig o welliant ym mhresenoldeb disgyblion oedran cynradd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn Sir Benfro, o 92.7% yn 15/16, i 92.8% yn 18/19, yn erbyn gostyngiad yn genedlaethol, i 92.1 yn 17/18.

Mae strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer gwella presenoldeb wedi bod yn hynod lwyddiannus, yn enwedig yn y sector uwchradd, lle roedd y strategaeth wedi'i ffocysu i ddechrau. Cynhaliwyd Adolygiadau Presenoldeb tymhorol yn yr ysgolion uwchradd rhwng 2016 a dechrau 2018 (24 o gyfarfodydd adolygu o ran cyfanswm), ac yn 17/18, cafodd pob ysgol gynradd a'r ysgol arbennig a'r UCD adolygiad hefyd. Roedd yr adolygiadau hyn yn fecanwaith da ar gyfer hyrwyddo arfer da a rhannu strategaethau effeithiol rhwng ysgolion. Mae lefel y cydweithio rhwng ysgolion ar bresenoldeb yn llawer uwch yn awr nag yn 2016.

Mae canran y bobl ifanc 16-18 mlwydd oed NACH yn Sir Benfro wedi gostwng o 3.2% yn 2015 i 1.8% yn 2017. Mae hwn yn faes ffocws allweddol ar gyfer leuenctid Sir Benfro, sy'n rhan allweddol o'r gweithlu ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Mae leuenctid Sir Benfro yn cyflogi Tîm Allymestyn sy'n canolbwyntio ar bontio o Flwyddyn 11 i addysg ôl-16. Mae swydd gwaith ieuenctid a ariennir ar y cyd yng Ngholeg Penfro. Mae prosiect 'Cam Nesa' yn canolbwyntio ar ennill deilliannau addysg ddewisol yn y cartref ar gyfer y boblogaeth NACH; hyd yma, mae 56 o bobl ifanc wedi cael swydd, mae 31 wedi ennill cymwysterau, ac mae 18 wrthi'n elwa ar gyfleoedd hyfforddi ar hyn o bryd, neu wedi cael cyfleoedd hyfforddi.

Mae canran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin yn Sir Benfro wedi cynyddu o 3.5% i 4% yn ystod y flwyddyn flaenorol, tra bod cyfartaledd Cymru wedi cynyddu o 2.6% i 3%. Rydym yn gyson ymhlith y cynlluniau Gwobr Dug Caeredin Awdurdod Lleol sy'n perfformio orau ar gyfer cyfraddau ymgysylltu a chwblhau. Am y 4 blynedd ddiwethaf, rydym ni wedi dilyn strategaeth bwrpasol o ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, plant sy'n derbyn gofal, a phlant ag ADY, yn y cynllun. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda chanran y rhai sy'n cwblhau Gwobr Dug Caeredin Efydd sydd ag ADY yn cynyddu o 10.3% yn 2013-14, i 15.8% yn 2017-18. Mae canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n dechrau Gwobr Dug Caeredin Efydd ac yn cwblhau'r Wobr wedi codi o 25.3% yn 2013-14, i 40.0% yn 2017-18.

Ers dechrau targedu disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal yn 2015, mae 96 o Wobrau Dug Caeredin wedi cael eu hennill gan ddisgyblion sy'n cael prydau

ysgol am ddim, ac 11 gan ddisgyblion sy'n blant sy'n derbyn gofal.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod o ddulliau ymyrraeth gynnar llwyddiannus i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag ADY. Mae prosiect y Drindod, sydd bellach yn dwyn yr enw Project now Play_Inc, yn cynnig cymorth i blant a phobl ifanc 5-18 oed mewn pum safle ledled y Sir o fewn darpariaeth ieuenctid ADY.

Mae'r awdurdod lleol yn sicrhau cymorth priodol ar gyfer disgyblion unigol sy'n agored i niwed trwy lwybr pontio clir ar gyfer plant yn sector y Blynyddoedd Cynnar.

Mae Tîm y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae'r awdurdod lleol wedi datblygu a chyflwyno Pecyn Cymorth Diogelu yn llwyddiannus ar gyfer Sector y Blynyddoedd Cynnar. Mae'r pecyn cymorth yn cynorthwyo ymarferwyr i adolygu'r broses ddiogelu yn eu lleoliad.

Mae'r awdurdod lleol yn effeithiol o ran mesur y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ledled y sir. Cynhaliwyd arolygon o'r galw yn Aberdaugleddau, Tyddewi a Phenfro, yn ogystal ag ymgynghoriad ledled y sir gyfan, yr adroddwyd am y canfyddiadau wrth Aelodau i'w hystyried. Mae cysylltiadau'r awdurdod â phartneriaid yn y Fforwm Cymraeg mewn Addysg yn effeithiol.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i ardaloedd Cymraeg traddodiadol Sir Benfro. Mae llwyddiant Ysgol Hafan y Môr yn Ninbych-y-pysgod yn nodweddiadol, ac mae nifer y disgyblion sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn Ninbych-y-pysgod wedi cynyddu 149% yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf.

Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o'r effaith gadarnhaol y mae ymyriadau chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn ei chael ar les, ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr. Mae Chwaraeon Sir Benfro yn targedu ei adnodd ysgolion uwchradd wrth ymgysylltu â disgyblion sy'n agored i niwed (h.y. disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, disgyblion ag ADY a phlant sy'n derbyn gofal), ac mae 67% o'r gynulleidfa darged hon (1919 o ddisgyblion) yn cymryd rhan o leiaf unwaith. Mae hefyd yn targedu ei adnodd at ymgysylltu â merched yn eu harddegau, gyda 72% yn cymryd rhan o leiaf unwaith. Yn 2018/19, creodd y gwasanaeth gyfanswm o 48,809 o gyfleoedd cyfranogi newydd yn yr oedran uwchradd.

Mae'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn cerddoriaeth, ac ansawdd y ddarpariaeth, yn rhagorol. Mae hyn oherwydd bod Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Benfro wedi ymrwymo i gefnogi a gwella gwaith ysgolion i roi profiad a mwynhad o gerddoriaeth a chreu cerddoriaeth i bobl ifanc, ni waeth beth fo'u cefndir cymdeithasol ac economaidd. Mae'r pecynnau teilwredig hyn yn cynnwys gwersi dosbarth cyfan, mentrau tymor byr (h.y. Drymio Djembe Affricanaidd, Samba, corau pop, ac ati) a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys gwersi i 600 o ddisgyblion a mwy bob wythnos (y mae 22% ohonynt yn cael prydau ysgol am ddim). Mae'r gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer myfyrwyr mwy abl a thalentog, gan gynnwys dosbarthiadau meistr gyda cherddorion ac arweinyddion proffesiynol, cyrsiau preswyl a gweithdai.

Blaenoriaethau Darpariaeth

Ym mis Hydref 2018, mabwysiadodd y Cabinet y Weledigaeth Addysg ar gyfer Sir Benfro. Roedd hyn yn dilyn cyfnod o ymgysylltu gan uwch swyddogion â chydweithwyr sy'n benaethiaid cynradd, uwchradd ac arbennig, gwleidyddion a rhanddeiliaid, i gytuno ar gyfres o amcanion strategol i ategu blaenoriaethau lefel uchel y gwasanaethau addysg yn Sir Benfro. Ategir y rhain gan ddogfen gweledigaeth Sir Benfro, ac fe'u mynegir fel 'Mae pob plentyn a pherson ifanc yn

cyflawni ac yn cyfrannu mwy nag yr oeddent yn meddwl yr oedd yn bosibl – Mae Pob Disgybl yn Cyfri, Mae Pob Gwers yn Cyfri’.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid trwy ei Fforwm Cymraeg i fonitro'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg trwy'r grŵp llywio. Mae'r grŵp hwn yn ymgysylltu'n llawn â'r strategaeth ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar bob lefel, ac mae hefyd wedi cael ei gynnwys yn ymateb yr awdurdod i'r ymgynghoriad ar drefniadau yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Cynhelir panel bob pythefnos i ystyried anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion sy'n newid yn cael eu nodi'n gynnar a bod darpariaeth yn cael ei neilltuo.

I ychwanegu at hyn, mae strwythur Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol ar waith ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd lle archwilir yr ymateb graddedig gan amrywiaeth o dimau. Adolygwyd hyn yn Nhymor yr Haf 2019 ar y cyd ag adolygiad o'r Paneli Cymorth Ychwanegol Uwchradd. O ganlyniad, ceir darpariaeth fwy teilwredig ar gyfer ysgolion uwchradd, i gydnabod y gwahanol lefelau angen mewn gwahanol ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer swyddogion. Mae'r cynnig hwn yn cynnwys amrywiaeth o weithdai a modiwlau e-ddysgu, y ceir manylion amdanynt yn yr adran 'Dysgu a Datblygu' ar y fewnrwyd. Ym mis Mawrth 2019, lansiodd yr awdurdod lleol uned hyfforddiant ar-lein Haen 1 Diogelu Oedolion a Phlant. Gofynnodd Grŵp Diogelu'r Awdurdod Cyfan i bob un o'r staff ymgymryd â'r hyfforddiant o'r newydd. Mae llawer o staff corfforaethol wedi cwblhau'r hyfforddiant, a bron pob un o staff y Gyfarwyddiaeth. Mae llawer o staff y gyfarwyddiaeth wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol, a hyfforddiant Radicaleiddio.

Mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain ar sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith, ar lefel partneriaeth leol a rhanbarthol, sy'n hyrwyddo cydweithrediad o ran diogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth priodol, trwy eu timau rheoli, yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r holl ofynion statudol o ran diogelu a hyrwyddo lles oedolion a phlant. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bob mis. Nododd arolygiad diweddar gan AGC fod perthnasoedd rhwng gwasanaethau addysg a phlant yn gryf ac effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol yn llwyddiannus iawn wrth fodloni dewisiadau rhieni ar gyfer derbyn i ysgolion. Ar gyfer rowndiau derbyn arferol i ysgolion cynradd / derbyn ac uwchradd yn 2018, bodlonwyd pob dewis cyntaf. Ar gyfer rowndiau derbyn arferol 2019, bodlonwyd bron pob dewis cyntaf - 99.73% ar gyfer cynradd / derbyn, a 100% ar gyfer uwchradd. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau derbyn effeithiol ar waith i fodloni lles plant sy'n agored i niwed, ac mae protocolau sefydledig ar waith mewn perthynas â disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, plant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol, a phlant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

Ffynhonnell: Adroddiad Hunanwerthuso Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion Cyngor Sir Penfro 2018-2019

MYNEDIAD AT FYWYD A GWASANAETHAU CYMUNEDOL

Byddwn yn cefnogi darparu gwasanaethau hygyrch y Cyngor, ac yn annog datblygu cyfleoedd hygyrch o fewn ein cymunedau lleol.

Y DARLUN CENEDLAETHOL

– Yn sgil digideiddio gwasanaethau a chyfathrebu yn gynyddol, bod yn rhywun hŷn, yn rhywun anabl, bod heb gymwysterau, neu fyw mewn tai cymdeithasol yn parhau i fod yn ffactorau risg ar gyfer allgáu digidol, er bod defnydd personol o'r rhyngwyd yn gwella ymhlith pobl hŷn. Mae meysydd o allgáu digidol yn parhau o hyd, yn enwedig yn y Gymru wledig.

-Mae diffyg hygyrchedd y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru, a gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig, yn creu rhwystrau rhag cyfranogiad cymdeithasol ac economaidd i aelwydydd heb geir, i bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig, ac i bobl anabl.

-Mae unigrwydd, arwahanrwydd a llai o ymdeimlad o berthyn yn rhai o'r problemau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu grwpiau penodol, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, gofalwyr, rhieni newydd, pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol neu drawsryweddol, a phobl o rai lleiafrifoedd ethnig. (cyf: A yw Cymru'n Decach?)

Mae Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cerbyd cludiant cyhoeddus newydd ar y tir (trenau, tacsis, bysiau a choetsis) fod yn hygyrch i bobl anabl, gan gynnwys y rheiny y mae angen iddynt aros mewn cadeiriau olwyn.

BETH SY'N DIGWYDD YN LLEOL?

Gwybodaeth Hygyrch

Mae gwefan Cyngor Sir Penfro yn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd y Sector Cyhoeddus (Gwefan a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 ac, o'r herwydd, yn darparu nifer o nodweddion hygyrchedd, sy'n caniatáu hygyrchedd i bobl ag amrywiaeth o namau. Yn ychwanegol, fel rhan o'i Siarter Cwsmeriaid, mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau amgen, gan gynnwys print bras, print sy'n hawdd ei ddarllen, Braille, sain ac ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys fel gwybodaeth safonol ar waelod ei bapur pennawd a'i negeseuon e-bost. Hefyd, rydym yn darparu holl daflenni'r gwasanaethau cymdeithasol oedolion mewn fformat hawdd ei ddarllen, ac yn anelu at sicrhau bod y wybodaeth a anfonir at ddefnyddwyr y Gwasanaeth Anabledd Dysgu mewn fformat hawdd ei ddarllen.

Seilwaith ac Allgáu Digidol

Mae gan dros 88% o aelwydydd a busnesau yn Sir Benfro fynediad at fand eang ar gyflymder o 30Mbps, o leiaf (sy'n bodloni diffiniad yr Undeb Ewropeaidd o fand eang cyflym). Fodd bynnag, mae gan lai na 6% o safleoedd fynediad at fand eang ar gyflymder o 300Mbps (band eang gwibgyswllt) ac mae gan 2.5% gyflymder yn llai na 2Mbps. Mae Cyngor Sir Penfro yn cefnogi rhaglen cysylltedd digidol sy'n ceisio helpu gwella cysylltedd.

(cyf: gwefan Cyngor Sir Penfro)

Hyd yn oed gyda seilwaith band eang gwell, mae'n anodd sicrhau cynhwysiant digidol o hyd. Mae rhwystrau rhag cyfranogi digidol yn cynnwys diffyg sgiliau, hyder, cymhelliant a mynediad at y rhyngwyd. Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o brosiectau, sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad digidol ledled y sir, gan gynnwys y cynllun Gwirfoddolwyr Hyrwyddo Digidol a gynhelir mewn llyfrgelloedd yn y sir, a darparu cyrsiau TG fel rhan o'i gynnig dysgu cymunedol. Hefyd, rydym ni wedi cyflogi dau swyddog prosiect yn y gymuned, a'u rôl yw cynorthwyo cwsmeriaid i symud at ffyrdd digidol o gael gwybodaeth a gwneud taliadau, fel rhan o gyflwyno Strategaeth Newid Sianeli ein Gwasanaethau Cwsmeriaid.

Yn 2019, fel rhan o'r un strategaeth, fe wnaethom gau tair o'n pum Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid (Abergwaun, Neyland ac Aberdaugleddau). Fel rhan o'r strategaeth, rydym hefyd yn bwriadu cau ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Noc Penfro. Yn ogystal â'r gwaith cynhwysiant digidol a amlinellir uchod, mae darpariaeth hefyd ar gael i gwsmeriaid i barhau i dalu rhent tai a'r Dreth Gyngor mewn swyddfeydd post. Byddwn yn monitro'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Hwlfordd, ac yn ei hadolygu'n rheolaidd.

Rydym wedi ymrwymo i gadw ein canolfan i gysylltu â chwsmeriaid dros y ffôn. Hefyd, bwriedir symud i ddefnyddio system yn seiliedig ar apwyntiadau, tra'n cadw darpariaeth galw heibio statudol ar gyfer anghenion aciwt. Bydd cyfarfodydd wedi'u trefnu ymlaen llaw, yn seiliedig ar apwyntiadau, yn rhoi cyfle i ni ddiwallu anghenion cwsmeriaid ag anghenion ychwanegol yn well, fel y rhai sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a gwasanaethau cyfieithu eraill.

Cludiant

Mae'r holl fysiau gwasanaethau cyhoeddus wedi cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSVAR), o'r dyddiad gofynnol, sef mis Ionawr 2016. Darperir gwasanaethau cludiant ysgol i ddiwallu anghenion y disgyblion sy'n cael eu cludo.

Rydym yn gweithio i wella arosfannau bysiau trwy osod ymylon palmant uwch ac arddangosfeydd amserlenni digidol. Ar hyn o bryd, mae dau o'n darparwyr gwasanaethau bysiau yn rhoi gwybodaeth am yr arhosfan nesaf ar y bysiau eu hunain, sy'n cynnwys arddangosfeydd digidol a chyhoeddiadau sain, fel ei gilydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r holl ddarparwyr.

Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a chydraddoldeb ar gyfer gyrwyr bws gwasanaeth.

Rydym yn peilota amserlenni Haws eu Darllen (yn seiliedig ar fformat Hawdd ei Ddarllen ar gyfer cwsmeriaid ag anableddau dysgu). Mae amserlenni Haws eu Darllen ar gael ar gais mewn fformat copi caled ar hyn o bryd, ac rydym wedi cael tua 60 o geisiadau am gopïau. Rydym yn gobeithio trefnu bod y rhain ar gael ar-lein, ac i barhau i ddarparu'r rhain ar gyfer teithwyr nad ydynt yn gallu defnyddio amserlenni traddodiadol.

Mae cynllun Pasbort Sir Benfro yn galluogi teithwyr i gyfathrebu â gyrwyr trwy ddelweddau a gair ysgrifenedig, heb fod angen siarad. Mae'r Pasbort Cadair Olwyn yn darparu manylion am y gadair olwyn i gynorthwyo â theithio mewn cerbydau cyhoeddus.

Mae Cymdeithas Mudiadau Cludiant Cymunedol Sir Benfro (PACTO) wedi sicrhau cyllid gan y Loteri Genedlaethol ar gyfer ei chynllun Cyfeillion Bysiau, sy'n cefnogi gwirfoddolwyr i helpu'r rheiny ag anghenion ychwanegol i ddefnyddio cludiant cyhoeddus a chymunedol. Mae hyfforddiant cludiant cyhoeddus ar gael hefyd ar gyfer y rheiny sy'n mynychu Canolfan

Gweithgarwch Cymdeithasol Portfield.

Mae ystod eang o fentrau cludiant cymunedol, yn cynnwys: Gwasanaeth Galw'r Gyrrwr, Bwc-A-Bus a Ceir Gwledig, sy'n darparu amrywiaeth o atebion hyblyg ar gyfer cwsmeriaid.

Strategaeth Toiledau Lleol

Roedd toiledau cyhoeddus yn faes yr amlygwyd ei fod yn peri pryder penodol gan grŵp Mynediad Sir Benfro fel rhan o'r gwaith ymgysylltu rhanbarthol, a wnaed i baratoi ar gyfer y strategaeth yng Ngwanwyn / Haf 2019.

Mae'r strategaeth yn ategu y dylid darparu: toiledau hygyrch a glân yn y rhan fwyaf o leoliadau priodol.

Yn 2018, fe wnaethom ymgymryd ag ymarfer ymgysylltu fel rhan o ddatblygu ein Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Sir Benfro. Roedd y grwpiau canlynol yn fwyaf tebygol o nodi nad oeddent yn teimlo'n hyderus ynglŷn â dod o hyd i doiledau addas yn Sir Benfro: y rheiny a nododd eu bod yn disgwyl babi; y rheiny sy'n 75 oed neu'n hŷn; y rheiny a oedd yn anabl; y rheiny a oedd yn ofalwyr; y rheiny a oedd ar gyfnod absenoldeb mamolaeth; y rheiny sy'n 65 – 74 oed; y rheiny sydd â phlant sy'n 5 oed neu'n iau, a menywod.

Nodau'r strategaeth yw:

- Sicrhau dyfodol cynifer o doiledau cyhoeddus presennol ag y bo modd
- Cynyddu'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus, a
- Gwella mynediad at bob grŵp; mae camau gweithredu yn cynnwys:
 - Sicrhau bod cyfleusterau newid babanod ar gael yn gyfartal i ddynion a menywod, fel ei gilydd. Byddwn yn ymdrechu i gynyddu darpariaeth y cyfleusterau newid babanod ledled y sir
 - Sicrhau y bydd unrhyw flociau toiledau newydd neu adnewyddiadau ar raddfa fawr yn cynnig darpariaeth neillryw i uchafu nifer y ciwbiclau y gall dynion a menywod eu defnyddio, a darparu ar gyfer pobl drawsryweddol ac anneuaid
 - Sicrhau bod unrhyw gyfleusterau newydd ar gyfer pobl anabl neu adnewyddiadau ar raddfa fawr yn cydymffurfio â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Anabledd) 2010 a bod egwyddorion dylunio cynhwysol a ymgorfforir mewn safonau ac arweiniad rheoleiddio, er enghraifft y Rheoliadau Adeiladu a Safonau Prydeinig, yn cael eu dilyn. Pan nad oes modd gwneud newidiadau ffisegol i ddarpariaeth bresennol, rhoddir ystyriaeth i drefnu bod darpariaeth amgen ar gael
 - Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i ymgorffori cyfleusterau Lleoedd Newid mewn unrhyw ddatblygiadau priodol yn y dyfodol
 - Bydd y gyfarwyddiaeth gynllunio yn rhoi ystyriaeth i sicrhau bod toiledau cyhoeddus sy'n rhoi mynediad i bawb yn rhan o geisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau priodol

(cyf: Strategaeth Toiledau Lleol Sir Benfro)

Dull Ataliol Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gwaith i fabwysiadu dull mwy ataliol wedi cyflymu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i hyn, mae nifer gynyddol o gyfleoedd i bobl fod yn rhan o ystod o ddatblygiadau'r trydydd sector a'r gymuned, sydd wedi'u hanelu at wella ansawdd bywyd i unigolion yn eu cymunedau eu hunain, a lleihau'r galw am ofal rheoledig parhaus.

Mae'r Ganolfan gorfforaethol Cyswllt Cwsmeriaid, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Croesffyrdd a llawer o sefydliadau eraill yn parhau i ymateb yn dda i reoli'r galw am ein gwasanaethau oedolion yn ystod 2018/19 trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Cyfanswm nifer y cysylltiadau dros y ffôn a'r e-bost a dderbyniwyd gan ein Canolfan Gyswllt gorfforaethol oedd 37,720 yn 2018/19. Mae hyn gryn dipyn yn llai na chyfanswm y nifer ar gyfer 2016/17, a oedd yn 43,219 a 2017/18 yn 42,943. Credwn fod y nifer wedi gostwng oherwydd bod cwsmeriaid yn awr yn gallu cael mwy o wybodaeth yn eu cymuned trwy gysylltwyr cymunedol a thros y rhyngwyd, trwy gael mynediad at gyfeiriadur gwybodaeth Dewis Cymru. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaethom gomisiynu Croesffyrdd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ni. Rydym hefyd yn nodi bod nifer yr atgyfeiriadau newydd ar gyfer gwasanaethau a wneir gan y ganolfan gyswllt wedi gostwng o 6,603 yn 2016/17 i 4,704 yn 2017/18, a 4,362 yn 2018/19. Mae canolfan gyswllt estynedig a darparu mynediad at fwy o wybodaeth i ddarparu cyngor a chymorth yn y man cyswllt cyntaf wedi golygu y bu gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau dyblyg ac amhriodol. Hefyd, mae ein timau gofal cymdeithasol yn cwblhau llai o asesiadau nag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Eleni, fe wnaethom gwblhau 2,335 o asesiadau, ac fe wnaethom gwblhau 3,193 o asesiadau yn 2016/17.

Mae'r ffigurau'n dangos y bu gostyngiad yn nifer y bobl rydym yn eu cynorthwyo. Credwn fod mwy o bobl bellach wedi'u grymuso i gael eu cymorth eu hunain gan y gymuned, ac nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau statudol trwom ni. Hefyd, mae adolygiadau rheolaidd o becynnau gwasanaeth trwy amrywiaeth o brosiectau yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth dim ond yn derbyn y gwasanaethau hynny sydd eu hangen arnyn nhw.

Bu cynnydd nodedig ar ffigurau 2017/18 o ran nifer y bobl sy'n cefnogi eu hanghenion iechyd meddwl. Gallai hyn fod o ganlyniad i ymwybyddiaeth gynyddol o wasanaethau iechyd meddwl trwy wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, gan arwain at atgyfeiriadau mwy priodol i'r gwasanaeth.

Gan edrych tua'r dyfodol, yn unol â Rhaglen yr Aelodau ar gyfer Gweinyddu, rydym yn bwriadu lleihau niferoedd y plant mewn lleoliadau preswyl a dychwelyd plant i amgylchedd cymuned eu cartref. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid fel Coleg Penfro a darparwyr lleol eraill er mwyn datblygu dewisiadau lleol yn lle darpariaeth breswyl y tu allan i'r sir. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn unol â'r uchelgeisiau hyn yn ein cynllun 2019/20.

Gweddnewid Cyfleoedd Dydd

Yn 2018/19, fe wnaethom ymrwmo i adolygu ein gwasanaethau dydd fel ein bod yn gweddu'n agosach i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yr oes fodern. Fe wnaethom anelu at gyd-gynllunio model newydd i gyflwyno gwasanaethau gyda'n partneriaid, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Fe wnaethom gynnal 13 o ddigwyddiadau cyd-gynhyrchu yn ystod mis Chwefror 2019. Mynychodd cyfanswm o 234 o unigolion y digwyddiadau, ac roedd 30 ohonynt yn rhieni a / neu ofalwyr. Bydd yr adborth hwn yn ein galluogi i ddatblygu modelau newydd i gyflwyno gwasanaethau ar gyfer ymgynghori ymhellach yn ystod 2019/20.

Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, bu ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r Sector Iechyd, Addysg a'r Sector Gwirfoddol er mwyn cynnal ystod o sesiynau ymgysylltu a gweithgarwch. Cynhaliwyd cyfanswm o 15 sesiwn yn ystod y gwyliau ysgol mewn amrywiaeth o leoliadau. Mwynhaodd cyfanswm o 1,376 o gyfranogwyr weithgareddau, a oedd yn cynnwys coginio, sgiliau coedwig, gweithgareddau chwaraeon, tasgau gwyddoniaeth, o enwi ychydig ohonynt. Mae'r sylwadau a gafwyd ar ôl y digwyddiadau yn dangos cymaint y mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan.

(cyf: Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2018 – 19)

Chwaraeon Hygyrch a Gweithgarwch Corfforol Chwaraeon Sir Benfro

- Cyngor Sir Penfro oedd yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i ennill achrediad 'Arian Insport' Chwaraeon Anabledd Cymru, ac mae'n un o'r 6 ALI yn unig yng Nghymru o hyd i gyflawni'r nod barcod hwn (*Chwaraeon Anabledd Cymru*)
- Er 2015, mae aelodau gweithredol o glybiau chwaraeon i bobl anabl wedi mwy na threblu (2015 – 344, 2019 -1134), mae hyfforddwyr penodol anabledd gweithredol wedi mwy na dyblu (2015 - 151, 2019 - 344), mae gwirfoddolwyr gweithredol (2015 – 117, 2019 - 226) a chlybiau anabledd cynhwysol (2015 – 14, 2019 - 30) wedi dyblu, ac mae'r cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon anabledd wedi treblu (2015 – 10970, 2019 35510) (*Dangosyddion Perfformiad Allweddol Chwaraeon Anabledd Cymru 2019/20*)
- Lleihodd y bwlch cyfranogi rhwng y rhywiau o 7.5% i 2% yn unig (bechgyn 48%, merched 46%) (Cymru 4%) (*Arolwg Cenedlaethol Chwaraeon Ysgol 2018*)
- Mae cyfraddau cyfranogi anabledd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (17% Sir Benfro, Cymru 12%). Mae hyn yn amlwg iawn yn yr oedran uwchradd (Sir Benfro 18.2%, Cymru 11%) (*Arolwg Cenedlaethol Chwaraeon Ysgol 2018*)
- Ar hyn o bryd, mae 42% o ddisgyblion anabl / â nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol 3 gwaith a mwy yr wythnos, o gymharu â 48% heb unrhyw anabledd / nam (*Arolwg Cenedlaethol Chwaraeon Ysgol 2018*)

Mae cangen datblygu chwaraeon y Cyngor, sef Chwaraeon Sir Benfro, yn arwain menter i ennill y Safon Aur Datblygu Mewn Chwaraeon, a fydd yn golygu:

- Cefnogi cynnwys pobl anabl trwy weithgarwch corfforol (gan gynnwys chwaraeon)
- Cefnogi datblygu athroniaeth, diwylliant gweithio, polisïau ac arferion cynhwysol o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru
- Arbenigedd a dealltwriaeth gynyddol o chwaraeon anabledd, fel bod partneriaid yn dod yn fwy annibynnol ac abl yn raddol i ddangos cyflwyno a chymorth gwell i bobl anabl
- Cynorthwyo partneriaid i gyflwyno chwaraeon yn ei gyfanrwydd yn hytrach na dim ond y fersiwn ohoni nad yw'n gysylltiedig ag anabledd
(cyf: Swyddog Chwaraeon Anabledd)

TAI

Byddwn yn gweithio i gynyddu argaeledd ac amrywiaeth tai fforddiadwy

Y DARLUN CENEDLAETHOL

- Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan wedi cynyddu ac mae lefelau uchel o ddigartrefedd yn parhau i fod yn destun pryder. Mae tystiolaeth yn cysylltu hyn â diwygiadau diweddar i nawdd cymdeithasol ledled y DU, yn ogystal â diffyg tai fforddiadwy a gostyngiadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru i fynd i'r afael â digartrefedd

– Mae dyletswyddau cryfach ar awdurdodau lleol yng Nghymru er 2015 yn atal digartrefedd i nifer fwy o bobl, ond nid yw'r effaith ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig yn glir*

– Mae pobl anabl yn wynebu prinder cartrefi hygyrch ac addasadwy ac oedi hir wrth wneud cartrefi presennol yn hygyrch. Mae data awdurdod lleol ar dai hygyrch ac addasadwy yn eu hardal yn wael, ar y cyfan

– Mae cyfran gynyddol o dai cymdeithasol yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Nod deddfwriaeth ddiweddar yw gwella telerau ac amodau i bobl sy'n rhentu yn y sector preifat, ond mae'n rhy gynnar i werthuso'i heffaith

**Awgrymodd gwerthusiad o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fod digartrefedd yn cael ei atal i nifer fwy o bobl nag o'r blaen, ond bod yr effaith ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig neu sydd mewn perygl (yn enwedig y rheiny â chyflyrau iechyd meddwl) yn amrywiol, yn bennaf o ganlyniad i wahaniaethau yn y gwasanaethau a ddarperir. Dynion sengl, pobl yn gadael gofal, cyn-droseddwr a'r rheiny sy'n profi problemau lluosog oedd fwyaf tebygol o fod ag anghenion tai heb eu diwallu (Llywodraeth Cymru, 2017a). Nododd gwerthusiad pellach mai prin yw'r awdurdodau lleol oedd yn monitro data cydraddoldeb ar gyfer y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, ac felly nid oeddent yn gallu dangos bod eu gwasanaethau yr un mor hygyrch, a threfnu eu bod ar gael i bawb (Swyddfa Archwilio Cymru, 2018). (cyf: A yw Cymru'n Decach?)*

Y galw am dai hygyrch

▪ Mae pobl anabl gryn dipyn yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â'u cartref presennol na phobl nad ydynt yn anabl – dywed 14% eu bod yn anfodlon o gymharu ag 8% o bobl nad ydynt yn anabl. Mae lefelau boddhad ar eu hisaf ymhlith pobl anabl o dan 45 oed a'r rheiny sy'n rhentu gan landlord preifat ar hyn o bryd

▪ Mae nifer o bobl, o'r holl ddeiliadaethau, yn gweld bod symud i dai rhent cymdeithasol yn opsiwn tebygol yn y dyfodol a fyddai'n diwallu eu hanghenion hygyrchedd wrth iddynt fynd yn hŷn

▪ Ni waeth beth fo'r sefyllfa bresennol o ran tai, mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn cydnabod eu hangen posibl yn y dyfodol am nodweddion tai hygyrch i ryw raddau

▪ Dywed mwyafrif (59%) y bobl anabl sy'n 65 ac yn hŷn fod angen nodweddion tai hygyrch arnynt yn y pum mlynedd nesaf, ac mae 46% o'r holl bobl anabl, a 20% o'r cyhoedd yn dweud yr un fath

▪ O blith y bobl â chyfrifoldebau gofalu, dywed 47% y bydd angen nodweddion tai hygyrch ar yr unigolyn y maent yn gofalu amdano o fewn y pum mlynedd nesaf

- Dywedodd 50% o bobl y byddent yn ffafrio aros yn eu cartref presennol gyda rhai addasiadau i'w galluogi i fyw yn annibynnol
- Byddai tua 19% o'r cyhoedd (neu 9.8 miliwn o bobl ledled Prydain Fawr) yn ffafrio symud i eiddo gwahanol wedi'i ddylunio neu'i addasu'n benodol i'w galluogi i fyw yn annibynnol
- Ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, nododd lleiafrif sylweddol ohonynt ddi-ddordeb mewn byw mewn cynlluniau tai hygyrch cynhwysol mewn egwyddor, os bydd angen gofal a chymorth arnynt rywbryd yn eu bywyd. Dywed 38% y byddai ganddynt ddi-ddordeb mewn byw mewn cynllun ar gyfer pobl anabl neu bobl nad ydynt yn anabl o ystod oedran debyg. Mae 35% yn dangos di-ddordeb mewn byw mewn cynllun ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl o unrhyw oedran
- Dywed bron i hanner cyhoedd Prydain (47%) y byddent yn fwy tebygol o ystyried symud i eiddo pe bai ystafell ymolchi i lawr grisiau yno
- Byddai mwy na thraean yn fwy tebygol o ystyried eiddo pe bai wedi cael ei addasu, i'w gwneud yn haws defnyddio ystafell ymolchi, neu fynediad heb risiau yn nhu blaen yr eiddo
- Mae pobl ag angen heb ei ddiwallu am dai hygyrch bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu o beidio â chwilio am waith gan eu bod yn sâl neu'n anabl na'r rheiny y caiff eu hanghenion eu diwallu neu sy'n anabl ond nad oes angen tai hygyrch arnynt
(cyf: Ymddiriedolaeth Habinteg a Popworth: The hidden housing market)

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai awdurdodau lleol hyrwyddo, "datblygiadau tai yn rhydd o rwystrau, er enghraifft wedi eu hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes". Mae safonau Cartrefi Gydol Oes, sy'n cael eu hyrwyddo gan Sefydliad Joseph Rowntree, yn cynnwys 16 o safonau sy'n anelu at ddarparu cartrefi sy'n hyblyg ac yn gallu darparu ar gyfer pobl ag ystod eang o anabledau (cyf: Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru, Argraffiad 9, Pennod 9)

BETH SY'N DIGWYDD YN LLEOL?

Argaeledd tai fforddiadwy

Gan fod y gymhareb prisiau tai / incwm yn Sir Benfro yn uchel o hyd, mae fforddiadwyedd tai yn broblem o hyd. Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn awgrymu mai'r gymhareb incwm yn Sir Benfro yn 2017 oedd 6.8, o gymharu â chyfartaledd o 7.0 yng Nghymru a Lloegr, tra oedd y gymhareb prisiau tai / incwm yn uwch yn Sir Benfro nag ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2006. Trwy broses ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), rydym wedi ymgynghori ar gynyddu cyflenwad tai yr holl ddeiliadaethau yn Sir Benfro, fel ffordd hirdymor o fynd i'r afael â fforddiadwyedd.

Mae cyllid o bremiwm Treth y Gyngor ail gartrefi yn cael ei ddefnyddio i sefydlu rhaglen dreigl i adeiladu 10 o gartrefi fforddiadwy bob blwyddyn, gyda'r cyntaf o'r rhain o bosibl yn cael eu hadeiladu yn Solfach. Mae safle Brynhir yn Ninbych-y-pysgod, sef y safle tai mwyaf yn y Parc Cenedlaethol, wedi cael ei brynu gan ein Cyfrif Refeniw Tai. Ystyriwyd cais cynllunio ar gyfer 102 o unedau preswyl fforddiadwy, wyth uned breswyl ranberchnogaeth a 34 o unedau preswyl y farchnad agored, gyda mynediad cysylltiedig, draeniad a thirwedd, darpariaeth gofod agored a llain ecolegol, gan Bwyllgor Cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar 10 Mehefin 2020. Yr argymhelliad oedd dirprwyo awdurdod i roi caniatâd cynllunio, yn amodol ar fodloni amodau amrywiol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys hen safle'r ysgol gynradd yn Johnston, y cymeradwywyd caniatâd cynllunio yn amodol ar y safle ar gyfer 33 o unedau fforddiadwy, gan gynnwys parcio, man agored a gwaith cysylltiedig, ar 30 Mai 2019. Trwy'r Gronfa Gofal Integredig, bydd y safle hwn yn cynnwys pedair fflat byw â chymorth.

Rhwng 1 Ebrill 2019 a Rhagfyr 2020, bydd 338 o gartrefi fforddiadwy yn cael eu cwblhau (mae rhai o'r rhain eisoes yn cael eu hadeiladu). Mae Cynllun Busnes Cyfrifon Refeniw Tai presennol 2020-50 yn amcangyfrif y bydd 390 o dai cyngor newydd yn cael eu hadeiladu yn y 5 mlynedd nesaf.

(cyf: Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Penfro 2019 – 20)

Papur am Gefndir Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys Asesiad o Safleoedd

Cysylltodd Cyngor Sir Penfro â thros 200 o gyfeiriadau aelwydydd fel rhan o'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Cwblhaodd 118 o aelwydydd yr arolwg, fe wnaeth 70 o aelwydydd naill ai gwrthod cymryd rhan, neu nid oedd modd cysylltu â nhw yn ystod yr arolwg. Mae hyn yn darparu ffigur cyfansymiol o 188 o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddarparu cyfradd ymateb o 63%. Mae angen heb ei ddiwallu ar gyfer 14 o leiniau preswyl, dros y pum mlynedd nesaf (erbyn diwedd 2024) wedi cael ei nodi yn yr asesiad hwn. Dros gyfnod y cynllun ar gyfer CSP ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (hyd at ddiwedd 2031 a 2033), mae hyn gyfwerth ag angen cyffredinol am 56 o leiniau preswyl (yr angen net o 2025 - 2033 yw 42 o leiniau). Mae'r Awdurdod wedi dadansoddi'r ymatebion, a nododd fod angen llety ychwanegol. I helpu cynllunio darpariaeth ar gyfer y dyfodol, gofynnwyd i ymatebwyr i ba ardal yn Sir Benfro yr hoffon nhw symud. Mae'r lleoliadau cyffredinol a nodwyd gan bobl mewn angen yn gyffredinol yn ne'r sir, a Hwlfordd sy'n darparu'r lleoliad pellaf i'r gogledd.

Mae'r potensial i nodi safleoedd ar gyfer Llety i Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu angen a nodwyd yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi bod trwy ddau ddull, sef:

- Ystyried cofrestr tir y Cyngor i nodi tir na ddefnyddir neu na ddefnyddir yn ddigonol sy'n eiddo i'r Cyngor ac wedi'i leoli mewn lleoedd lle mae'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn dymuno byw
- Galw am safleoedd ymgeiswyr a safleoedd ymgeiswyr ychwanegol fel rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol

Mae'r asesiad wedi dangos, er bod gan y pedwar safle asessedig a ystyrir yn fanwl y raddfa i letya'r ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr, eu bod wedi'u cyfyngu'n amrywiol gan dirwedd ac effaith weledol, lleoliad ac agosrwydd at aneddiadau, mynediad a risg llifogydd. Nid oedd unrhyw un o'r safleoedd yn cynnig opsiwn realistig i neilltuo ar gyfer llety safle Sipsiwn a Theithwyr. Safle ymgeiswyr arfaethedig – codwyd pryderon difrifol ynghylch a oedd modd ei gyflawni. Mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a'r amcangyfrifon presennol ar gyfer safle ymestyn Kingsmoor, Cilgeti, yw £110,000 fesul llain. Am y rheswm hwn, a diffyg addasrwydd y tir sy'n eiddo i'r Awdurdod a safleoedd ymgeiswyr, ystyrir bod safleoedd hunanddatblygu bach yn ffordd briodol ymlaen i fynd i'r afael â hyn.

(cyf: Papur Cefndir Sipsiwn a Theithwyr LDP2, gan gynnwys Asesiad Safle)

Strategaeth Ddigartrefedd Dyfed Powys

Mae Strategaeth Ddigartrefedd Dyfed Powys yn darparu'r wybodaeth ganlynol am ddigartrefedd:

Ers cyflwyno'r Ddeddf Tai, mae nifer yr aelwydydd y canfyddir eu bod yn ddigartref wedi cynyddu (er bod y cynnydd isaf yn Sir Benfro).

Awdurdod Lleol	Nifer yr aelwydydd y canfuwyd eu bod yn ddigartref (o dan s73) 2015-16	Nifer yr aelwydydd y canfuwyd eu bod yn ddigartref (o dan s73) 2017-18	% y cynnydd
Sir Gaerfyrddin	573	786	37%

Ceredigion	171	192	12%
Sir Benfro	342	345	1%
Powys	174	231	33%
Cyfanswm	1,260	1,554	23%

- Mae hyn wedi arwain at gynyddu pwysau ar Opsiynau Tai / 'yr ymateb brys'
- Mae pobl yn troi at wasanaethau digartrefedd y Cyngor ag anghenion hyd yn oed mwy cymhleth
- Mae opsiynau llai fforddiadwy ar gyfer pobl sengl (yn enwedig y rheiny o dan 35 oed)

Mae'n mynd yn gynyddol anodd manteisio ar yr opsiynau ar gyfer pobl sengl, sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy fel ei gilydd. Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y bobl sengl ar gofrestr tai bresennol pob Cyngor:

Awdurdod Lleol	% yr aelwydydd ag angen tai un gwely ar y gofrestr tai
Sir Gaerfyrddin	40%
Ceredigion	49%
Sir Benfro	61%
Powys	44%


Mae cyfran yr aelwydydd ar restrau aros sydd ag angen am lety ag un ystafell wely yn llawer mwy na chyfran yr eiddo un ystafell wely sydd ar gael yn y cyflenwad tai (daw hyn hyd yn oed yn amlycach pan fyddwch chi'n hepgor llety un ystafell wely sydd wedi'i ddynodi ar gyfer pobl hŷn).

Caiff hyn ei bwysleisio hefyd yng **Nghynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai Cyngor Sir Penfro 2020-50**, sy'n darparu'r wybodaeth isod. Ceir ymrwymiad clir yn y cynllun i wella argaeledd y tai fforddiadwy ar gyfer pobl leol yn Sir Benfro, ac mae'n amlinellu ymrwymadau penodol mewn perthynas â phobl hŷn, y rheiny ag anableddau dysgu, a phobl sy'n gadael gofal.

Angen am Dai

Caiff yr angen am dai yn y sir dros y 5 mlynedd ddiwethaf, fel a gymerwyd o'r Gofrestr Dewis Cartrefi, ei ddangos isod. Mae'r angen am dai wedi bod yn weddol sefydlog dros y cyfnod hwn, ac mae angen eiddo ag 1 a 2 ystafell wely ar fwyafrif yr ymgeiswyr ar y gofrestr o hyd.

Housing Need



Fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wrthi'n cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd. Yr arwyddion cynnar o waith ymchwil a wnaed hyd yma yw y bydd angen parhaus am dai fforddiadwy, yn enwedig eiddo ag un ystafell wely, sy'n adlewyrchu gwybodaeth y Gofrestr Dewis Cartrefi uchod.

Cyflenwad Tai Cymdeithasol

Dangosir dadansoddiad o gyflenwad tai presennol Cyngor Sir Penfro isod:

	0 Ystafell wely	1 Ystafell wely	2 Ystafell wely	3 Ystafell wely	4 Ystafell wely	5 Ystafell wely	6 Ystafell wely	Cyfanswm
Fflat un ystafell Llawr Gwaelod	50							50
Fflat un ystafell Llawr Cyntaf	27							27
Fflat un ystafell Ail Lawr ac yn Uwch	6							6
Fflat Llawr Gwaelod		250	276	21				547
Fflat Llawr Cyntaf		230	317	30				577
Fflat Ail Lawr ac yn Uwch		24	23	4				51
Fflat Deulawr Llawr Gwaelod		1	3	2				6
Fflat Deulawr Ail Lawr ac yn Uwch		2	6	13				21
Byngalo		385	886	60	1			1332
Tŷ Heb Barlwr		12	723	2094	55	4	3	2891
Tŷ â Pharlwr			30	103	5	2		140
Cyfansymiau	83	904	2264	2327	61	6	3	5,648

Detholiad Chwef Ion 2020

Yn ogystal, mae 3,276 o eiddo ychwanegol sy'n dai cymdeithasol a berchnogir gan gymdeithasau tai Ateb a Wales & West.


O gymharu â'r wybodaeth uchod am yr angen am dai, mae camgyfatebiaeth amlwg o ran y cyflenwad a'r galw am eiddo llai ag un ystafell wely a dwy ystafell wely, ac rydym wedi dechrau mynd i'r afael â hyn gyda'n rhaglen gaffael. Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu nifer yr

ymgeiswyr ar Gofrestr Tai Hygyrch Sir Benfro ar 27 Gorffennaf 2020. Bydd ein datblygiad tai newydd yn cynnwys cyfuniad o feintiau eiddo yn adlewyrchu'r anghenion ar lefel leol.

Applicants on the Pembrokeshire Accessible Housing Register as at 28/07/2020

Bedroom Eligibility	Totals
1 Bedroom	176
2 Bedrooms	70
3 Bedrooms	33
4 Bedrooms	12
5 Bedrooms	2
Sum:	293

Applicants on the Pembrokeshire Accessible Housing Register



Tai â Chymorth

Rydym yn cydnabod anghenion amrywiol ein tenantiaid presennol a'n darpar denantiaid, ac o ganlyniad i fregusrwydd nifer ohonynt, bydd angen nid brics a mortar yn unig arnynt i ddiwallu eu hanghenion, ond gwasanaethau cymorth hefyd. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu mwyafrif o'n tai â chymorth i bobl hŷn fel tai gwarchod.

Mae llawer o'n cyflenwad tai gwarchod yn hen, ac er ein bod wedi moderneiddio un cynllun yn Nhyddewi, mae angen i ni fuddsoddi mwy yn ein tai gwarchod i sicrhau ei fod yn bodloni dyheadau'r oes fodern a bod ganddo ran gadarnhaol o ran cynorthwyo ag amcan corfforaethol y Cyngor i hyrwyddo byw yn annibynnol ar gyfer pobl hŷn. Fel rhan o hyn, eleni, cynhaliwyd adolygiad o'r llety presennol ar gyfer pobl hŷn a'r cymorth a gânt. Mae canfyddiadau cychwynnol o'r adolygiad yn awgrymu bod angen gwahanol opsiynau ar gyfer pobl hŷn ledled y sir. Gallai hyn gynnwys moderneiddio neu ailddatblygu cynlluniau presennol, ond bydd angen niferoedd cynyddol o eiddo hefyd i ddarparu ar gyfer ein poblogaeth oedrannus. Mae cyllid ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yn ein cynlluniau gwariant yn y dyfodol. Nodwyd gan Aelodau'r Cyngor, yn ein Bwrdd Datblygu Tai a'n Gweithgor Cyfrif Refeniw Tai, bod gwella tai gwarchod yn weithgarwch blaenoriaethol. Fel rhan o'r gwaith parhaus hwn, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 17 o fflatiau newydd i bobl hŷn yn Aberdaugleddau, a bydd gwaith yn dechrau ar y rhain yn 2020-21.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni ystyried y rôl y gall tai Cyngor ei chael wrth gynorthwyo pobl sy'n agored i niwed i fyw yn y gymuned, a pharhau i drefnu bod tai ar gyfer anghenion cyffredinol ar gael at y diben hwn, er enghraifft i letya pobl ag anabledd dysgu neu bobl sy'n gadael gofal. Fel rhan o'n proses gosod rhent y llynedd, pennwyd y byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu dyrannu i ddechrau'r gwelliannau hyn yn 2019-20. Yn dilyn hyn, dyrannwyd £750,000 yn ychwanegol i'r Rhaglen Gyfalaf i ddechrau ar y gwaith. Yn 2019-20, buom yn llwyddiannus wrth wneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad pedair fflat byw â chymorth wedi'u hadeiladu o'r newydd, a chaffael dau eiddo i letya pobl ag anableddau dysgu, ynghyd â chaffael eiddo ar gyfer uned â chymorth i rieni a babanod. (cyf: Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai Cyngor Sir Penfro 2020 – 50)

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Rydym yn mesur ein perfformiad wrth ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar sail nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerir i gyflwyno grant. Yn chwarter un, yn 2015 – 16, er

enghraifft, nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyflwyno 29 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oedd 376. Yn chwarter un, yn 2019 – 20, nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i gyflwyno 28 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oedd 191. Mae hyn yn welliant sylweddol o 2015-16 lle roedd yn cymryd ychydig llai na blwyddyn i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl, o gymharu â'r 6 mis y mae'n ei gymryd nawr. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, fod lle i wella o hyd (cyf: Adran Dai)

CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Byddwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n annog pobl mewn cymunedau lleol i gyd-dynnu â'i gilydd yn dda, ac anelu at leihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Y DARLUN CENEDLAETHOL

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cyflawni cenedlaethol ar gydlyniant cymunedol ar gyfer 2016/17. Mae'r cynllun yn amlinellu deilliannau yn canolbwyntio ar y canlynol: troseddau casineb; caethwasiaeth fodern; cynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr; mewnfudo a chefnogi cynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr; deall effaith tlodi; a bod polisïau a gwasanaethau yn ymatebol i densiynau cymunedol, gan gynnwys cefnogi ymgysylltu â chymunedau a effeithiwyd trwy Atal*. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu rhwydwaith o wyth cydlynnydd cydlyniant cymunedol, sy'n cwmpasu pob awdurdod lleol, i gefnogi cyflwyno'r cynllun (cyf: A yw Cymru'n Decach?)

**Mae'r Ddyletswydd Atal yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi pwysau priodol ar yr angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth pan fyddant yn ystyried yr holl ffactorau eraill sy'n berthnasol i'r modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau arferol (cyf: www.gov.uk)*

-Roedd mwyafrif (75%) y troseddau casineb a gafodd eu hadrodd a'u cofnodi yng Nghymru yn 2016/17 wedi eu cymhell gan hil neu grefydd. Mae hyn yn destun pryder penodol o ystyried bod Prydain ar fin gadael yr Undeb Ewropeaidd, a'r cynnydd sydyn mewn troseddau casineb ar ôl refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, ac ymosodiadau terfysgol diweddar

– Bu cynnydd cyflym yn nifer y troseddau trais rhywiol a domestig sydd wedi cael eu hadrodd i'r heddlu, a'u cofnodi ganddynt, er 2015. Mae hyn yn cynnwys troseddau cam-drin rhywiol yn erbyn plant. Gallai hyn fod o ganlyniad i adrodd neu gofnodi gwell, neu o ganlyniad i gynnydd mewn achosion (cyf: A yw Cymru'n Decach?)

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru weithio gyda'i gilydd mewn ffordd gyson a chydlynol i atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a gwella'r deilliannau ar gyfer unigolion a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn bod strategaeth genedlaethol a strategaethau lleol ar waith.

Mae Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016 – 21 Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

- Mae 1.4 miliwn o fenywod a 700,000 o ddynion 16-59 oed yn dweud eu bod wedi profi achosion o gam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr
- Mae allosod y data hwn ar gyfer Cymru yn dangos bod 11% o fenywod a 5% o ddynion y flwyddyn yn profi 'unrhyw gam-drin domestig', tra bod cyfraddau 'unrhyw gam-drin rhywiol' yn y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn uwch ar gyfer menywod (3.2%) na dynion (0.7%)
- Yn 2011, amcangyfrifir bod 137,000 o ferched a menywod yn byw â chanlyniadau anffurfiol organau cenhedlu benywod yn y Deyrnas Unedig, ac yn 2011, amcangyfrifir bod 60,000 o ferched o dan 15 oed yn byw yn y DU, a oedd wedi eu geni i famau o wledydd sy'n arfer anffurfiol organau cenhedlu benywod, ac felly gallent fod mewn perygl o ddiodeff yn sgil anffurfiol

organau cenhedlu benywod. Amcangyfrifir bod 140 o fenywod yn dioddef yn sgil anffurfio organau cenhedlu bob blwyddyn yng Nghymru

- Roedd 80% o achosion y bu Uned Priodasau dan Orfod Llywodraeth y DU yn delio â nhw yn cynnwys dioddefwyr sy'n fenywod; roedd 20% yn cynnwys dioddefwyr sy'n ddynion.

Amcangyfrifir bod hyd at 100 o ddiodefwyr priodas dan orfod y flwyddyn yng Nghymru

- Mewn astudiaeth o bobl ifanc mewn perthnasoedd rhywiol, roedd 25 y cant o'r merched ac 18 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin corfforol; roedd 75 y cant o'r merched ac 14 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin emosiynol, a 33 y cant o'r merched ac 16 y cant o'r bechgyn yn profi cam-drin rhywiol. Canfu nad merched yn unig sy'n profi mwy o gamdriniaeth, ond eu bod hefyd yn profi cam-drin mwy difrifol yn amlach, ac yn dioddef mwy o effeithiau negyddol ar eu lles, o gymharu â bechgyn

- Mae 1 o bob 5 o fenywod 16-59 oed wedi profi rhyw fath o drais rhywiol ers oeddent yn 16 oed

- Mae 2/3 o'r holl fenywod, ac 85% o fenywod iau yn profi aflonyddu rhywiol

Mae bron i hanner miliwn o oedolion yn dioddef ymosodiad rhywiol bob blwyddyn, ac mae tua 85,000 o fenywod a 12,000 o ddynion yn cael eu treisio bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr – 11 o oedolion yn cael eu treisio bob awr

- Amcangyfrifir bod o leiaf 11 miliwn o oedolion wedi goroesi cam-drin rhywiol trwy gyffwrdd a heb gyffwrdd yn y DU

- Mae 1 o bob 20 o blant wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Cafodd dros 90% o blant a ddiodeffodd gamdriniaeth rywiol eu cam-drin gan rywun yr oeddent yn ei adnabod

BREXIT

Cydnabyddir y bydd BREXIT yn effeithio ar hawliau rhai pobl yn Sir Benfro i fanteisio ar y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu.

Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Os ydych chi'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd y Swistir, gallwch chi a'ch teulu wneud cais i Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i barhau i fyw yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch chi naill ai'n cael statws preswyllydd sefydlog neu statws preswyllydd cyn-sefydlog. Efallai y gallwch chi aros yn y DU heb wneud cais, er enghraifft os ydych chi'n ddinesydd o Iwerddon, neu gael caniatâd amhenodol i aros. Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais yw 30 Mehefin 2021. Gellir gwneud cais am y cynllun yn rhad ac am ddim.

(cyf: www.gov.uk)

BETH SY'N DIGWYDD YN LLEOL?

Ystadegau Troseddau Lleol

Heddlu Dyfed Powys – Adroddiad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu 2018-19

Troseddau yn Seiliedig ar Ddiodefwyr (12 mis yn gorffen 30/09/2018)

Math o drosedd yn seiliedig ar ddiodefwyr	Ardal Heddlu Dyfed Powys	Cymru a Lloegr
Trais yn erbyn yr unigolyn	36%	30%
Troseddau lladrata	30%	39%
Difrod troseddol a thanau bwriadol	15%	11%

Troseddau eraill yn erbyn cymdeithas	15%	14%
Troseddau rhywiol	4%	3%
Arall	0%	3%
Cyfanswm	100%	100%

- Roedd troseddau trais yn erbyn yr unigolyn a throseddau rhywiol yn uwch yn ardal Heddlu Dyfed-Powys nag oeddent ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan

Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

- Fod Heddlu Dyfed-Powys yn dda yn lleihau troseddau ac yn cadw pobl yn ddiogel. Mae angen i'r heddlu wella'r modd y mae'n atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Bod angen i Heddlu Dyfed-Powys wella'r modd y mae'n gwarchod pobl sy'n agored i niwed.
- Bod yr heddlu yn dda yn deall ac yn adnabod bregusrwydd. Ond nid yw bob amser yn cwblhau asesiad risg pan fydd yn mynychu digwyddiad cam-drin domestig. Mae hyn yn golygu efallai nad yw'r heddlu yn rhoi'r amddiffyniad gorau i ddiodefwyr sy'n agored i niwed.
- Bod yr heddlu yn dda yn cynorthwyo diodefwyr sy'n agored i niwed. Mae'n cyfnewid gwybodaeth â sefydliadau eraill, sy'n helpu ac yn cynorthwyo diodefwyr.

Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae hon yn strategaeth ar y cyd i drechu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n amlinellu sut bydd y rhanbarth:

- yn cefnogi diodefwyr a goroeswyr
- yn mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflawni troseddau
- yn sicrhau bod gan bobl broffesiynol yr offer a'r wybodaeth i weithredu
- yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion, ac yn helpu plant a phobl eraill a grwpiau eraill sy'n agored i niwed i ddeall anghydraddoldeb mewn perthnasoedd, a bod ymddygiad yn ymwneud â cham-drin bob amser yn anghywir

Yn Nyfed Powys, amcangyfrifir y canlynol:

- bod 18,000 o bobl rhwng 16 - 59 oed, ar gyfartaledd, wedi dioddef Cam-drin Domestig bob blwyddyn trwy gydol 2013 – 2016 (sylwer nad yw hyn yn cynnwys unigolion sy'n 60 mlwydd oed neu'n hŷn)
- bod 6.8% o'r boblogaeth leol wedi profi cam-drin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 10.3% o'r boblogaeth menywod, 3.3% o'r boblogaeth dynion.

Yn 2016/17, cofnododd Heddlu Dyfed Powys

- 4635 o achosion o gam-drin domestig
- 69 o droseddau rhywiol, yn cynnwys treisio
- 405 o droseddau stelcio / aflonyddu

Yn 2015/16, cofnododd Heddlu Dyfed Powys un drosedd "Trais ar Sail Anrhydedd" ond ni adroddwyd unrhyw droseddau o'r natur hon yn 2016/17, ac adroddwyd un achos o anffurfio

organau cenhedlu benywod yn y rhanbarth yn 2016/17.

Rhwng mis Mawrth 2013 a mis Ebrill 2017, bu 9 o Laddiadau Domestig yn Nyfed Powys. Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2016 a mis Mehefin 2017, trafodwyd 1373 o achosion yng nghyfarfodydd y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yn y rhanbarth. Mae hyn yn golygu bod 63 o achosion MARAC wedi cael eu trafod i bob 10,000 o boblogaeth yr oedolion sy'n fenywod, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn uwch na'r argymhelliad, sef 40 o achosion.

Derbyniodd llinell gymorth Live Fear Free 1760 o alwadau o ranbarth Dyfed Powys yn 2016/17, sef 12.5% o gyfanswm y galwadau i'r llinell gymorth am y cyfnod hwnnw a chynnydd mewn galwadau, o gymharu â 2015/16 (1507).

Yn 2016/17, manteisiodd dros 2500 o unigolion ar wasanaethau arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn Nyfed Powys

- aeth 601 o unigolion i'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
 - cafodd 172 o oedolion a 90 o blant gwnsela yn gysylltiedig â thrais a cham-drin rhywiol. Fodd bynnag, mae 273 o oedolion a 63 o blant yn parhau i fod ar y rhestr aros ar gyfer y gwasanaeth hwn
 - defnyddiodd 276 o fenywod ac 18 o ddynion wasanaethau ar sail llety yn y rhanbarth (ffoaduriaid, tai diogel, llety gwasgaredig neu lety â chymorth)
 - defnyddiodd 264 o blant a phobl ifanc wasanaethau ar sail llety gyda'u rhiant nad oedd yn eu cam-drin
 - defnyddiodd 1395 o fenywod a 100 o ddynion gymorth yn y gymuned
- Roedd Cam-drin Domestig yn ffactor yn gysylltiedig â rhieni mewn rhwng 13% a 20% o achosion plant mewn angen ac yn ffactor atgyfeirio mewn rhwng 7% a 34% mewn achosion plant mewn angen.

Yn ychwanegol:

- Bu goroeswyr sy'n ddynion yn siarad am yr angen am leoedd pendant, diogel ac ar wahân i gael gwybodaeth a chymorth
- Nid yw pobl hŷn yn defnyddio gwasanaethau (cymorth ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), a nhw yw'r grŵp lleiaf tebygol o adrodd am y cam-drin
- Caiff menywod duon a lleiafrifoedd ethnig eu heffeithio'n anghymesur gan wahanol fathau o gam-drin, a gallai goroeswyr wynebu rhwystrau ychwanegol rhag ceisio cymorth
- Mae pobl anabl yn profi cyfraddau anghymesur uwch o gam-drin domestig ac yn profi cam-drin domestig am gyfnodau hwy, a cham-drin mwy difrifol a rheolaidd na phobl nad ydynt yn anabl
- Roedd pobl LBGTQ+ yn wynebu rhwystrau unigol, rhyngbersonol, strwythurol a diwylliannol rhag defnyddio gwasanaethau cymorth
- Mae menywod sy'n Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu rhwystrau rhag gadael perthynas lle cânt eu cam-drin, a cheisio cymorth

Ystadegau Troseddau Casineb Rhanbarthol, Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Awdurdod Lleol	Nifer y troseddau casineb a adroddwyd
Sir Gaerfyrddin	159
Ceredigion	75
Sir Benfro	97

Powys	113
-------	-----

Nodwedd Warchoddedig	Nifer y troseddau casineb a adroddwyd Sir Benfro
Hil	63
Anabledd	14
Cyfeiriadedd rhywiol	12
Crefydd	4
Hunaniaeth o ran rhywedd	3
Arall	1
Cyfanswm	97

- Mae nifer y troseddau casineb a adroddwyd yn ardal Heddlu Dyfed-Powys wedi cynyddu. Y nifer uchaf o droseddau casineb a adroddwyd yw troseddau'n gysylltiedig â hil (cyf: Cymorth i Ddiodefwyd)
- Adroddwyd tair trosedd yn gysylltiedig â hunaniaeth o ran rhywedd yn ardal Heddlu Dyfed-Powys rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 (gweler uchod).

Fodd bynnag, dangosodd Ymchwil Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn 2013 fod rhwystrau sylweddol i bobl drawsryweddol adrodd am droseddau casineb, a nododd yr effaith sylweddol ar ddiodefwyd. . . Nododd ymchwiliad Cydraddoldeb Trawsryweddol Tŷ'r Cyffredin fod arolygon cyfrinachol o bobl draws yn awgrymu bod profiad o droseddau casineb yn hollbresennol ac yn digwydd bob dydd. Dywedodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrthynt fod astudiaeth wedi canfod bod 40 y cant o ymatebwyr trawsryweddol wedi profi cam-drin geiriol, roedd 30 wedi profi ymddygiad bygythiol, roedd 25 y cant wedi profi cam-drin corfforol, a 4% wedi profi cam-drin rhywiol. Er y gall diodefwyd trawsffobia gael eu targedu hyd at 50 gwaith mewn blwyddyn, 3 o bob 10 ohonynt yn unig a adroddodd am y digwyddiad. Yn Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyfer eu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i ddatblygu cydraddoldeb ar gyfer pobl drawsryweddol, roedd ymatebwyr yn pryderu'n fawr am ddiogelwch ac aflonyddu ar gludiant cyhoeddus (cyf: Strategaeth a Ffefrir LDP2 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb)

Adsefydlu Ffoaduriaid

Roedd Sir Benfro yn flaenllaw yn y gwobrau Nawdd Cymunedol i Ffoaduriaid cyntaf erioed, a gynhaliwyd yn Llundain ym mis Tachwedd 2018. Rhoddwyd gwobrau ar gyfer ystod amrywiol o bencampwyr cymunedol sydd wedi helpu ffoaduriaid i adsefydlu trwy gynllun Nawdd Cymunedol wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Teulu o Arberth oedd yr enillwyr yng nghategori Newydd-ddyfodiaid y Flwyddyn, ac roedd cynllun Croeso Arberth yn y dref yn un o'r tri theilyngwr yng Ngrŵp Nawdd Cymunedol y Flwyddyn. Roedd Cyngor Sir Penfro yn un o dri enwebiad am wobwr Cefnogwr Awdurdod Lleol Nawdd Cymunedol yr (cyf: Cynllun Gwella 2018 – 19)

Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Ym mis Tachwedd 2019, dangosodd data'r llywodraeth y bu 29,240 o geisiadau i'r cynllun yng Nghymru. O'r rhain, roedd 590 yn geisiadau o Sir Benfro (cyf: Llywodraeth Cymru)

Caethwasiaeth Fodern – gweler yr adran ar Gyflogaeth, tudalen 12

Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr – gweler yr adran ar Dai, tudalen 30